**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru

Gorffennaf 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

# Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru

Gorffennaf 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy’n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a’r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Leighton Andrews**
Llafur Cymru
Rhondda



**Peter Black**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Janet Finch-Saunders**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Rhodri Glyn Thomas**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

# Cynnwys

**Argymhellion ..... 5**

**1. Llyfrgelloedd yng Nghymru: cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ..... 7**

Cefndir ..... 7

Tystiolaeth gan ymatebwyr ..... 7

**Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ..... 7**

Y fframweithiau statudol a pholisi ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru ..... 8

Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 ..... 8

Safonau a Fframwaith Asesu Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ..... 9

Rôl CyMAL ..... 11

Pwysau ariannol yn y dyfodol ..... 11

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 12

Ein barn ni ..... 15

**2. Cynaliadwyedd ariannol a darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yn y dyfodol ..... 17**

Cefndir ..... 17

Tystiolaeth gan ymatebwyr ..... 17

Cydweithredu ..... 18

Cydleoli ..... 20

Llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau ..... 21

Rôl gwirfoddolwyr yn fwy cyffredinol ..... 23

Achosion o gau gwasanaethau llyfrgelloedd a gostyngiadau posibl ..... 24

Arian grant ..... 25

Codi refeniw a chodi tâl am wasanaethau ..... 26

Tystiolaeth gan y Gweinidog ..... 27

Cydweithredu ..... 27

Cydleoli ..... 28

Rôl gwirfoddolwyr ..... 28

Grantiau a ffynonellau ariannu amgen ..... 29

Ein barn ni ........................................ 30
**3. Rôl gyfoes a chymunedol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru .......... 33**
Tystiolaeth gan ymatebwyr ........................................ 33
Cynhwysiant digidol ........................................ 34
Cyflawni diwygiadau lles Llywodraeth y DU ........................................ 35
Gwerth llyfrgelloedd i bobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas ............ 36
Tystiolaeth gan y Gweinidog ........................................ 37
Cynhwysiant digidol a chyflawni diwygiadau lles Llywodraeth y DU .......... 37
Gwerth llyfrgelloedd i aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed ........... 38
Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau llyfrgelloedd ........................................ 38
Ein barn ni ........................................ 38
**Atodiad 1: Ein hymchwiliad ........................................ 40**
**Atodiad 2A: Tystion ........................................ 42**
**Atodiad 2B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........................................ 44**
**Atodiad 3: Tystiolaeth y Grŵp Ffocws ........................................ 46**

## Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i’r Gweinidog wedi’u rhestru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a’r casgliadau.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'n ganolog ddata wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ôl grwpiau demograffig. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gydweithio â phartneriaid i ddatblygu diffiniad cyfoes o wasanaethau llyfrgelloedd "comprehensive and efficient" i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Dylai'r cyfryw ddiffiniad gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd, a ddylai barhau i fod am ddim yn ein barn ni. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried datblygu cynllun achredu gwirfoddol ar gyfer llyfrgelloedd unigol yng Nghymru. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cymorth parhaus a'r canllawiau angenrheidiol ar gael er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cymorth a chanllawiau digonol yn parhau i fod ar gael er mwyn i awdurdodau lleol nodi a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael. (Tudalen 31)

**Argymhelliad 8.** Argymhellwn, er y dylai gwasanaethau craidd llyfrgelloedd barhau am ddim, y dylai'r Gweinidog ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol yr

holl opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn i lyfrgelloedd godi refeniw.
(Tudalen 32)

**Argymhelliad 9.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn well. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i fynd ar drywydd yr achos dros gael arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau cynyddol sydd gan staff llyfrgelloedd yng Nghymru i gefnogi'r broses o gyflwyno diwygiadau lles digidol yn bennaf. (Tudalen 39)

# 1. Llyfrgelloedd yng Nghymru: cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

## Cefndir

1. Yn ei Rhaglen Lywodraethu[1], mae Llywodraeth Cymru'n gwneud yr ymrwymiadau canlynol mewn perthynas â llyfrgelloedd:

- Ehangu mynediad i'n hamgueddfeydd, ein llyfrgelloedd a'n safleoedd treftadaeth, gan dargedu teuluoedd incwm isel a phlant yn benodol;
- Atgyfnerthu trefniadau cydweithio rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau a sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

## *Tystiolaeth gan ymatebwyr*

### Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

2. Creodd tystiolaeth ar y mater hwn safbwynt cadarnhaol o waith Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â llyfrgelloedd.

3. Amlygodd awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol gynnydd yn nifer yr ymwelwyr fel dangosydd o'r cynnydd hwn. Dywedodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru wrthym:

> "Library visitor numbers per head of population in Wales have been consistently higher than those in England, and continue to increase, rising by 11% since 2002/3, and reversing the English trend (Wales 13.25million 2002/3, 14.72m 2011/12, England 323m 2002/3, 306m 2011/12)."[2]

4. Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd fod buddsoddiadau mewn llyfrgelloedd drwy arian grant a roddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn "critical ingredient for many library services in Wales"[3] a'i fod wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Clywsom fod cyllid gan y rhaglen Llyfrgelloedd

---

[1] *Rhaglen Lywodraethu*, Llywodraeth Cymru
[2] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05

Dysgu Cymunedol wedi galluogi 89 o lyfrgelloedd (allan o gyfanswm o 280 o lyfrgelloedd yng Nghymru) i gael eu hailfodelu dros y deng mlynedd diwethaf,[4] a bod y llyfrgelloedd hyn ar eu newydd wedd o ganlyniad wedi gweld "significant increase in the number of users".[5] Trafodir arian grant yn fanylach ym Mhennod 2.

5. Fodd bynnag, clywsom gan rai ymatebwyr na roddir lle amlwg i lyfrgelloedd yn y Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, ynghyd â Chynghorau Abertawe a Chonwy, na soniwyd fawr ddim am lyfrgelloedd cyhoeddus yn nogfennau'r Rhaglen, er gwaethaf y ffaith bod llyfrgelloedd yn chwarae "a key role in relation to Health, Supporting People, Poverty, Education, Learning, Digital Inclusion, Welsh Language and Rural Communities – all key chapters in the Programme for Government Report".[6] Ar y pwynt hwn, dywedodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru wrthym:

> "We strongly believe the role public libraries have to play in relation to key national policy areas should be more widely recognised and acknowledged."

6. Gwnaeth Cyngor Sir Powys sylw tebyg am y cysylltiadau rhwng gwasanaethau llyfrgelloedd ac agendâu polisi lleol a chenedlaethol allweddol, gan ddadlau bod "lack of a direct linkage between the legislative and policy frameworks relating to these other agendas which undermines the potential sustainability of library services."[7]

## Y fframweithiau statudol a pholisi ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru

### *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964*

7. O dan ***Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964*** ("Deddf 1964"), mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus "comprehensive and efficient". Mae gan Weinidogion Cymru rôl statudol i arolygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a hyrwyddo'r gwaith o'i wella, ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni'r swyddogaethau mewn perthynas â llyfrgelloedd a roddir iddynt yn Neddf 1964. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r

---

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 28
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 27

pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu ymchwiliad mewn achosion lle mae awdurdod lleol yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i orchymyn bod yr awdurdod hwnnw yn cyflawni ei ddyletswyddau.

8. Gwnaethom ofyn i dystion, o ystyried ei hoedran, p'un a oedd angen disodli Deddf 1964 a moderneiddio rhai o'r cyfeiriadau ynddi, i adlewyrchu datblygiadau digidol yn arbennig.

9. Ni chafwyd cefnogaeth gyffredinol i ddisodli Deddf 1964, er i ymatebwyr yn cynnwys CLlLC, Cynghorau Blaenau Gwent a Chasnewydd nodi na cheir diffiniad o wasanaeth llyfrgelloedd "comprehensive and efficient". Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y ffordd fwyaf priodol o ddelio â hyn; awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnal trafodaeth genedlaethol ynghylch y diffiniad, ac awgrymodd eraill, yn cynnwys CLlLC, y dylai Llywodraeth Cymru egluro ymhellach beth mae'n ystyried yw ystyr y term hwn. Roedd CLlLC o'r farn fod hyn yn bwysig o ystyried y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 1964 i ymyrryd mewn achosion lle mae awdurdod lleol yn methu â darparu gwasanaethau o'r fath.

### *Safonau a Fframwaith Asesu Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru*

10. Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon sy'n arolygu'r gwasanaethau llyfrgelloedd a ddarperir gan awdurdodau lleol a hynny drwy Safonau a Fframwaith Asesu anstatudol Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ('y Safonau'). Diben y Safonau yw:

> "to ensure a broad equity of service delivery, no matter where the person lives or accesses the library service. For library services, they provide a benchmark for provision, support service planning, and allow for the sharing of good practice."[8]

11. Cyflwynwyd y Safonau gyntaf yn 2002. Eleni (y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2014) yw blwyddyn olaf y pedwerydd fframwaith.

12. Roedd ymatebwyr yn gyffredinol o'r farn bod y Safonau blaenorol yn adnoddau defnyddiol a oedd yn ymhelaethu ar y gofynion o dan Ddeddf 1964 ac yn helpu i hyrwyddo gwelliannau o fewn y sector ac i fesur perfformiad. Ar y pwynt hwn, dywedodd CLlLC:

---

[8] *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli, Fframwaith strategol ar gyfer datblygu llyfrgelloedd Cymru 2012-16*

> "... it has been recognised by all partners that the previous frameworks were extremely effective in making a positive contribution in ensuring a more consistent and better quality of public library service across Wales and raising the standards of libraries."[9]

13. Fodd bynnag, clywyd tystiolaeth gennym gan nifer o ymatebwyr ynghylch yr angen i'r fframwaith nesaf newid ei ffocws. Ar y pwynt hwn, dywedodd CLlLC wrthym:

> "It has been recognised that under the emerging 5th framework that it is necessary to develop a more outcome based set of standards, demonstrating the wider contribution and value that public libraries make and allowing for greater reconfiguration along more innovative lines within local authorities."[10]

14. Croesawodd Cyngor Sir Penfro y newid hwn, gan ddweud, er bod y Safonau "in principle a positive force for continuous improvement", bod eu "historic focus on inputs rather than outcomes has to a certain extent acted as a straight-jacket to innovation and change."[11]

15. Cytunodd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, bod angen newid ffocws y Safonau i ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbwn, a dadleuodd Cyngor Sir Powys "a more flexible approach is going to be necessary to support and assist local authorities to develop alternative delivery models which seek to sustain equitable levels of service".[12]

16. Clywsom hefyd gan rai ymatebwyr, gan gynnwys Cynghorau Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, y dylai methiant i gyrraedd y Safonau arwain at ganlyniadau. Ar y pwynt hwn, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

> "There seems to be little sanction against poor performance to the WPLS … If these standards are to be the interpretation of the Act, there should be further commitment by the Welsh Government to actively support authorities to deliver against them as there is a danger they will become

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 28
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 28
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 27

an onerous paper exercise, with little real value to the people of Wales."[13]

17. Ymhellach, clywsom hefyd dystiolaeth, er bod y Safonau yn asesu ansawdd cyffredinol gwasanaethau llyfrgell mewn ardal awdurdod lleol, y gellid gwneud darpariaethau i safonau gael eu hasesu fesul safle. Clywsom y byddai hyn yn arbennig o bwysig yn achos llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau (trafodir yn fanylach ym Mhennod 2).[14]

18. Dywedodd CILIP Cymru Wales wrthym, yn ogystal â'r adroddiad blynyddol a gynhyrchir ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu perfformiad llyfrgelloedd yn erbyn y Safonau, y dylai'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer Cymru gyfan "as a way of ensuring that libraries are kept to the forefront of the Government's agenda".[15]

### *Rôl CyMAL*

19. Roedd ymatebwyr, yn cynnwys CILIP Cymru Wales, CLlLC ac Ymddiriedolaeth Carnegie, yn gadarnhaol iawn ynghylch y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru drwy isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (CyMAL), gan ddweud ei bod yn cydweithio'n agos â gweddill y sector yng Nghymru, ac yn cyflawni rôl gydgysylltiol a chefnogol.

20. Yn Lloegr, caiff llyfrgelloedd cyhoeddus eu datblygu a'u cynorthwyo gan Arts Council England, ar wahân i'r llywodraeth. Ni chlywsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu mai sefydliad y tu allan i Lywodraeth Cymru ddylai ymgymryd â'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan CyMAL i gynorthwyo llyfrgelloedd yng Nghymru.

## Pwysau ariannol yn y dyfodol

21. Er bod llawer o gefnogaeth i'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i hymrwymiadau i lyfrgelloedd cyhoeddus, y prif bryder ymysg ymatebwyr oedd yr un ynghylch cynaliadwyedd y cynnydd hwn yn ymwneud â phwysau ariannol o ganlyniad i gyfyngiadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Er bod ymatebwyr yn gyffredinol o'r farn nad oedd

---

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 22
[14] Cofnod y Trafodion, para 86-88, 5 Mawrth 2014 *(mae pob cyfeiriad at Gofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol)*
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 19

gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru wedi gorfod wynebu'r un lefel o doriadau â'r hyn a wynebwyd gan lyfrgelloedd yn Lloegr, dywedodd CILIP Cymru Wales wrthym:

> "Our concerns for the continuation of this positive progress relate to the budget reductions faced by local authorities to core funding and the Welsh Local Government Association announcement in October 2013 of reductions of £175m in 2014/15 with a further £65m in 2015/16."[16]

22. Roedd gan Gynghorau Sir Penfro a Phowys bryderon tebyg ynghylch effeithiau posibl toriadau cyllideb, gyda Chyngor Sir Penfro yn dweud "progress in the current climate will be very challenging."[17]

23. Nododd Cyngor Powys y caiff cynaliadwyedd gwasanaethau llyfrgelloedd ei bennu gan lefelau'r gefnogaeth gymunedol ar gyfer modelau darparu amgen, yn ogystal â phwysau ariannol. Trafodir cynaliadwyedd ariannol a modelau darparu ar gyfer y dyfodol yn fanylach ym Mhennod 2.

### *Tystiolaeth gan y Gweinidog*

24. Caiff cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â llyfrgelloedd ei fesur gan ddefnyddio dau ddangosydd perfformiad allweddol:

- nifer yr ymwelwyr â safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol a chenedlaethol;
- nifer y llyfrgelloedd a ailwampiwyd drwy Raglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol CyMAL.

25. Ym mis Rhagfyr 2013, sefydlodd y Gweinidog Adolygiad Arbenigol o Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn "assess the impact of local authority reductions in expenditure on library services on their ability to maintain statutory provision".[18] Bydd yr Adolygiad Arbenigol hefyd yn ystyried modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau a nodwyd o waith ymchwil ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ar dueddiadau mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y dyfodol; modelau addas ar gyfer

[16] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 19
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014, Papur 1

darparu gwasanaethau; a fframweithiau deddfwriaethol addas. Disgwylir gweld y canfyddiadau cychwynnol ym mis Gorffennaf 2014.

26. Gan nodi bod niferoedd ymwelwyr yng Nghymru wedi cynyddu'n gyffredinol dros y deng mlynedd diwethaf, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am argaeledd data wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd gan grwpiau demograffig gwahanol, yn cynnwys pobl ifanc, teuluoedd ar incwm isel a phobl anabl. Cadarnhaodd y Gweinidog bod y data hyn wedi'u casglu drwy sawl ffordd, yn cynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK, arolygon blynyddol a gynhelir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, yn ogystal ag ymchwil a gomisiynwyd gan CyMAL.[19]

27. Mewn perthynas â Deddf 1964, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog p'un a oedd hyn yn dal yn addas at y diben a ph'un a oedd wedi ystyried ei adolygu. Cadarnhaodd mai un o'r "significant aspect" o waith yr Adolygiad Arbenigol fyddai "look at our current statutory framework, and at whether any changes are needed."[20]

28. Ymhellach, cadarnhaodd y Gweinidog mai "last resort" oedd defnyddio ei bwerau ymyrryd o dan Ddeddf 1964:

> "Across the UK, there is no tradition of intervention using the government's statutory powers under legislation… The approach undertaken in Wales is to work with the local authority to improve areas which are identified as weak by the annual Welsh Public Library Standards assessment process."[21]

29. Aeth ymlaen i ddweud, er nad oedd y Safonau'n rhai statudol, eu bod yn "important in helping me decide whether the statutory requirements [for a comprehensive and efficient library service] are being met". Cadarnhaodd y byddai'r Adolygiad Arbenigol yn ystyried y Safonau.

30. Cadarnhaodd y Gweinidog bod y Safonau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar ac y byddai pumed raglen y Safonau a'r Fframwaith Asesu tair blynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2014. Dywedodd bod y fframwaith newydd wedi cael ei ddatblygu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau

---

[19] Cofnod y Trafodion, para 5-23, 13 Mawrth 2014
[20] Cofnod y Trafodion, para 67, 13 Mawrth 2014
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014, Papur 1

lleol, a'i fod wedi symud i “a more outcomes-based model”, a fyddai “about the skills … that people develop [including IT skills], and the knowledge that people are able to acquire.”[22]

31. Fel y nodwyd yn gynharach, croesawodd ymatebwyr y newid hwn, gan gynnwys CLlLC a Chyngor Sir Penfro.

32. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog p'un a fyddai'n cytuno i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd yng Nghymru, fel yr awgrymwyd gan CILIP Cymru Wales. Dywedodd fod pob awdurdod lleol eisoes wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol fel rhan o'r gwaith monitro ac asesu sy'n mynd rhagddo o dan y Safonau. Fodd bynnag, roedd yn barod i ystyried cyhoeddi adroddiad ar gyfer Cymru gyfan.[23]

33. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog p'un a oedd wedi ystyried cyflwyno achrediad fesul safle o lyfrgelloedd. Yn ogystal â mesur ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, byddai cynllun o'r fath hefyd yn dangos ansawdd y gwasanaethau hynny i'r cyhoedd. Nododd y Gweinidog fod hwn yn fater y gellid ei ystyried fel rhan o waith yr Adolygiad Arbenigol.[24]

34. Yn olaf, mewn perthynas â rôl CyMAL a'i safle o fewn Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog wrthym “the model we have here in Wales is working very well”. Cyfeiriodd at ganfyddiadau'r gwaith a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Carnegie[25] i gefnogi hyn, gan ddweud ei fod yn “shows that public satisfaction with our library services is stronger and better in Wales than in England.”[26]

35. Ymhellach, tynnodd y swyddog sy'n cynorthwyo'r Gweinidog ein sylw at broffil staffio CyMAL, gan ddweud bod “three quarters of the staff (…) are from the sector or the profession themselves and are therefore very experienced in the sector's work.”[27]

---

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014, Papur 1, a Chofnod y Trafodion, para 70-73, 13 Mawrth 2014
[23] Cofnod y Trafodion, para 109-110, 13 Mawrth 2014
[24] Cofnod y Trafodion, para 74-79, 13 Mawrth 2014
[25] www.carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter---discussion-paper
[26] Cofnod y Trafodion, para 98, 13 Mawrth 2014
[27] Cofnod y Trafodion, para 101, 13 Mawrth 2014

36. Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud, drwy'r Adolygiad Arbenigol ac fel rhan o waith arall, y byddai'r llywodraeth yn "continually assess where we are in Wales and how we make further improvement."[28]

**Ein barn ni**

37. Yn draddodiadol, mae gan lyfrgelloedd rôl bwysig iawn i'w chwarae yn ein cymunedau, ac mae hynny'n wir o hyd, ac, fel y cyfryw, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod hyn drwy roi safle digon amlwg iddynt yn ei Rhaglen Lywodraethu, gan adlewyrchu'r cyfraniad a wnânt mewn amrywiaeth o feysydd portffolio.

38. Rydym yn cydnabod, o dan y trefniadau presennol, bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Gweinidog fel rhan o'r trefniadau monitro ac asesu o dan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, credwn y byddai cael adroddiad blynyddol ar gyfer Cymru gyfan gan y Gweinidog yn gwella'r trefniadau hyn ac yn rhoi gwell cyfle i graffu cyhoeddus.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.**

39. Rydym yn croesawu'r cynnydd cyffredinol yn niferoedd yr ymwelwyr â llyfrgelloedd yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf ac rydym yn awyddus i weld hyn yn parhau yn y dyfodol. Fel rhan o drefniadau'r Gweinidog ar gyfer monitro niferoedd yr ymwelwyr ac asesu'r graddau y mae'r Llywodraeth wedi llwyddo i dargedu teuluoedd ar incwm isel a phlant, credwn y dylai sicrhau bod data wedi'u dadgyfuno ar gyfer y grwpiau demograffig hyn ar gael i'r cyhoedd. Gellid gwneud hyn fel rhan o adroddiad blynyddol Cymru gyfan ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'n ganolog ddata wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ôl grwpiau demograffig.**

40. Mewn perthynas â Deddf 1964, nodwn nad oedd gwir ddyhead iddi gael ei disodli, ond cytunwn ag ymatebwyr y byddai'n werth cytuno ar ddiffiniad cyfoes o ddyletswydd statudol awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd "comprehensive and efficient". Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried pŵer

[28] Cofnod y Trafodion, para 98, 13 Mawrth 2014

statudol y Gweinidog i ymyrryd lle na chaiff gwasanaethau o'r fath eu darparu. Credwn mai'r Gweinidog ddylai arwain y gwaith hwn.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gydweithio â phartneriaid i ddatblygu diffiniad cyfoes o wasanaethau llyfrgelloedd "comprehensive and efficient" i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Dylai'r cyfryw ddiffiniad gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd, a ddylai barhau i fod am ddim yn ein barn ni.**

41. Mewn perthynas â'r Safonau, nodwn eu bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar a bod y fframwaith asesu newydd ar waith bellach. Nodwn hefyd fod ymatebwyr wedi croesawu'r penderfyniad i sicrhau bod y Safonau newydd yn canolbwyntio mwy ar allbwn.

42. Nodwn, yn gyffredinol, y caiff ansawdd gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru ei asesu yn erbyn y Safonau. Fodd bynnag, credwn y byddai'n werth asesu perfformiad ar lefel llyfrgelloedd unigol drwy ddatblygu cynllun achredu gwirfoddol yn debyg i'r cynllun ledled y DU sydd eisoes yn weithredol ar gyfer amgueddfeydd, ac sy'n cael ei gweinyddu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

**Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried datblygu cynllun achredu gwirfoddol ar gyfer llyfrgelloedd unigol yng Nghymru.**

43. Nodwn y sylwadau cadarnhaol gan ymatebwyr ynghylch rôl CyMAL. Nodwn ymhellach nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y dylai CyMAL fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

44. Yn olaf, croesawn y broses o sefydlu'r Adolygiad Arbenigol a hyderwn y bydd ein hadroddiad yn gyfraniad defnyddiol at ei waith.

# 2. Cynaliadwyedd ariannol a darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yn y dyfodol

### Cefndir

45. Er bod darparu llyfrgelloedd yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol, nid yw'r cyllid ar gyfer llyfrgelloedd yn cael ei neilltuo yng Nghymru ar hyn o bryd. Felly, mae'n rhaid i lyfrgelloedd gystadlu am adnoddau yn erbyn gwasanaethau statudol ac anstatudol eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol.

### Tystiolaeth gan ymatebwyr

46. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol gan ymatebwyr, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, y byddai angen i awdurdodau lleol adolygu sut y caiff gwasanaethau llyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill eu darparu yn y dyfodol. Ar y pwynt hwn, nododd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched:

> "Public services can no longer work in isolation; we envisage innovative, joined-up partnership approaches to the delivery of services meeting the needs of communities as the way forward. Models of provision will need to be flexible and responsive to community needs, for example, different approaches may be needed in rural and urban areas."[29]

47. Nododd CLlLC fod effaith toriadau i'r gyllideb wedi cael eu lliniaru hyd yma yn sgil cydweithio agos â CyMAL a rhwng awdurdodau lleol, a oedd wedi arwain at welliannau o ran arbedion.

48. Yn wir, canmolodd llawer o ymatebwyr y cymorth strategol a ddarparwyd gan CyMAL. Ar y pwynt hwn, dywedodd Ymddiriedolaeth Carnegie UK fod Llywodraeth Cymru mewn "relatively strong position as a result of the role of CyMAL, which can make connections between libraries and other service providers, and encourage regional or national responses to issues which are most cost effective when dealt with at those levels."[30]

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 03
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 16

49. Fodd bynnag, eglurodd CLILC hefyd fod awdurdodau lleol “have been and are continuing to look at a wide range of options to deliver new sustainable models of library provision”. Nododd:

> “There are many innovative developments that are either in place or being put into place, including shared space, community managed and regional library management system. There has also been a root and branch investigation by local authorities on the use made of buildings and the historic nature of provision, which in some cases has been identified, as not fit for purpose and not viable.”

50. Nododd CLILC fod awdurdodau lleol wrthi'n adolygu gwasanaethau llyfrgelloedd ac yn ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol “as a way of meeting both the financial challenges and identified community needs”. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys mwy o gydweithredu gyda phartneriaid, cyfleusterau a reolir gan gymunedau, modelau menter gymdeithasol (yn cynnwys mabwysiadu 'statws ymddiriedaeth'), adleoli llyfrgelloedd, gwella gwasanaethau i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi, gwasanaeth casglu llyfrau o ganolfannau eraill a gwasanaethau symudol wedi'u haddasu.

51. Clywsom gan awdurdodau unigol, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Powys ac Ynys Môn, ynghylch enghreifftiau penodol o fodelau amgen a fabwysiadwyd yn eu hardaloedd. Ystyrir rhai o'r rhain yn fanylach isod.

### *Cydweithredu*

52. Nododd llawer o ymatebwyr bod cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn opsiwn posibl ar gyfer gwella cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau llyfrgelloedd a'r broses o ddarparu gwasanaethau. Cafwyd llawer o dystiolaeth o gydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

53. Nododd CILIP Cymru Wales:

> “Collaboration both within the library and information sector and across local authority services is key to ensuring future resilience [against public sector cuts].

> "There are a number of reasons to promote collaboration but undoubtedly one is to secure savings by more efficient and effective working. It is also about increasing capacity and resilience in the sector to meet the challenges ahead and respond proactively to opportunities."[31]

54. Wrth roi sylwadau ar drefniadau cydweithredol presennol, esboniodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru fod cyllid gan Lywodraeth Cymru a dylanwad CyMAL wedi gwella "the ability and will within the wider library sector to work on a national strategic level in order to negotiate the best access and resources for Welsh citizens". [32]

55. Nododd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru a Cyngor Dinas Casnewydd, bod cydweithredu o ran gwasanaethau llyfrgelloedd ar draws pob sector, gan gynnwys awdurdodau lleol, addysg bellach ac addysg uwch ac iechyd. Fel enghraifft, cyfeiriodd CILIP Cymru Wales at Mynediad Cerdded i Mewn Cymru, sy'n galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio e-adnoddau mewn llyfrgelloedd Addysg Uwch yng Nghymru. Cynorthwyir y cynllun gan CyMAL mewn cydweithrediad â Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru.

56. Nododd awdurdodau lleol, yn cynnwys Cynghorau Sir y Fflint a Sir Caerfyrddin, fod trefniadau cydweithredol eisoes ar waith ar draws awdurdodau mewn perthynas â chaffael, hyfforddi staff, benthyciadau rhyng-lyfrgelloedd a marchnata a hyrwyddo.

57. Er bod awdurdodau'n derbyn yn gyffredinol y gallai cydweithredu eu galluogi i ddarparu gwasanaethau yn fwy cost effeithiol, a manteisio ar arbedion maint, amlygodd Cyngor Dinas Casnewydd bod "few savings to be found on actual frontline service delivery".[33]

58. Wrth roi sylwadau ar drefniadau ar gyfer y dyfodol, pwysleisiodd Cymdeithas Prif Lyfrgelloedd Cymru bod angen i awdurdodau adeiladu ar bartneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol er mwyn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr a denu defnyddwyr newydd i lyfrgelloedd cyhoeddus. [34]

---

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 19
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 09
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08

59. Ar nodyn tebyg, nododd CILIP Cymru Wales:

> "Although the partnership and collaborative working achieved is impressive, and leads the UK, it needs to be accelerated and taken forward with even greater determination."[35]

60. Credir y bydd datblygu System Rheoli Llyfrgelloedd ar draws llyfrgelloedd yng Nghymru "will unlock the possibility of greater administrative integration and sharing of expertise and management resources as envisaged in the Simpson report."

### *Cydleoli*

61. Roedd cydleoli llyfrgelloedd gyda gwasanaethau awdurdodau lleol eraill yn thema gyffredin ymysg ymatebwyr, gydag awdurdodau yn ystyried hyn yn opsiwn ffafriol o ran arbed arian a denu ymwelwyr newydd.

62. Wrth amlygu buddiannau cydleoli, nododd Cyngor Dinas Casnewydd:

> "Continuing to work in partnership to offer library facilities from co-located service points improves the value for money from existing premises while maximising the footfall for the benefit of all partners."[36]

63. Rhoddodd nifer o awdurdodau lleol enghreifftiau i ni o brosiectau cydleoli arloesol yn eu hardaloedd, yn cynnwys ymgorffori llyfrgelloedd mewn canolfannau chwaraeon a chanolfannau cymunedol eraill.

64. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrthym fod y dystiolaeth o'r cyfryw fentrau yn ei ardal "suggests that that has proved very successful for us". Cofnododd "3000 more visits per month to the new facility [at Bridgend life centre] than would have been the case at the old one."[37]

65. Esboniodd Cyngor Sir Penfro bod "quite a big tradition of co-location"[38] o fewn ei ardal. Fodd bynnag, aeth ymlaen i nodi:

> "[…] rather than just co-locating with another service, we are using the professional skills of librarians to fully take on another service. In

---

[35] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 19
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 09
[37] Cofnod y Trafodion, para 16, 12 Chwefror 2014
[38] Cofnod y Trafodion, para 117, 5 Mawrth 2014

Pembrokeshire, we are taking on tourist information, but rather than having a tourist information centre in a library, it is a library and information centre with generic-working staff. […] There are other examples in library services where they take on benefit claims or police enquiries, because they harness the skills of librarians […] there are real opportunities for that kind of generic working, which can make significant savings as well, as a whole authority."[39]

66. Nododd Cyngor Sir Caerfyrddin "co-location is becoming increasingly important". Yn ei brofiad ef, mae'r broses o gydleoli llyfrgelloedd wedi gweld "varying degrees of success".[40]

### *Llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau*

67. Roedd rôl bosibl llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yn thema gyffredin yn y dystiolaeth. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y tueddiad cynyddol yn Lloegr o ddatblygu llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau, gydag amcangyfrif o 400 yn weithredol ar hyn o bryd. Roedd hyn yn bennaf mewn ymateb i doriadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol, gyda chynghorau yn Lloegr yn edrych fwyfwy ar ddefnyddio gwirfoddolwyr er mwyn osgoi cau llyfrgelloedd cyhoeddus a chau bylchau a geir mewn adnoddau.

68. Esboniodd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched bod ei adroddiad ar waith ymchwil[41] a wnaed ar lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yn Lloegr wedi canfod:

> "[…] the piecemeal development of community managed libraries, and the inadequate guidance on good practice had resulted in many volunteers receiving a chronic lack of support from local authorities, and facing unrealistic demands. Volunteers were navigating a complex obstacle course of responsibilities and often struggling to discharge these responsibilities effectively, raising questions about the long term sustainability of community managed libraries."[42]

---

[39] Cofnod y Trafodion, para 117, 5 Mawrth 2014
[40] Cofnod y Trafodion, para 119, 5 Mawrth 2014
[41] *On Permanent Loan? Community Managed Libraries: The Volunteer Perspective,* Ymchwil gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, Ionawr 2013
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 03

69. Codwyd pwyntiau tebyg gan Gyngor Sir Penfro, a nododd nad yw llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau “work in all communities and that standards of service and sustainability are highly variable”.[43] Aeth ymlaen i nodi, er mai prin iawn yw'r llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau a geir yng Nghymru ar hyn o bryd, y disgwylir i'r niferoedd gynyddu'n sylweddol i ryw 50 i 60 yn y ddwy flynedd nesaf.

70. Clywsom hefyd fod “risks around equality and diversity” gyda llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau, yn cynnwys "whether the library staff or volunteers are representative of the communities that they serve”. Dywedodd Cyngor Sir Penfro:

> “All the evidence suggests that it tends to be quite a narrow demographic. It tends to be elderly, usually retired, white females.”[44]

71. Yn y cyd-destun hwn, amlinellodd Cyngor Sir Penfro dri mater allweddol yr oedd o'r farn y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau y caiff llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yng Nghymru eu defnyddio'n ehangach, sef:

- cyflwyno safonau ansawdd sy'n canolbwyntio ar safleoedd unigol (yn wahanol i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru sy'n mesur perfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd ledled Cymru);
- awdurdodau lleol i ystyried modelau cynaliadwy: er enghraifft ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill sydd â mynediad i lifau arian dibynadwy;
- darparu cymorth parhaus a chyngor proffesiynol, yn cynnwys tîm o "library development officers" ledled Cymru.[45]

72. Nododd Cyngor Sir Caerfyrddin fod ganddo un llyfrgell a gaiff ei rhedeg gan wirfoddolwyr yn ei ardal a bod posibilrwydd y gellid archwilio ac ehangu'r model hwn ymhellach.

73. Esboniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei fod wedi defnyddio arian grant gan CyMAL i recriwtio Swyddog Datblygu Llyfrgelloedd Cymunedol, a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu llyfrgelloedd cymunedol yn yr awdurdod. Roedd wedi ffurfio partneriaethau ag amrywiaeth o sefydliadau, yn cynnwys yr Heddlu,

---

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05
[44] Cofnod y Trafodion, para 100, 5 Mawrth 2014
[45] Cofnod y Trafodion, para 90, 5 Mawrth 2014

Cynghorau Tref a Chymuned a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac, fel y cyfryw, "a range of provision will be available in community libraries in addition to library services".[46]

### *Rôl gwirfoddolwyr yn fwy cyffredinol*

74. Cafwyd cydnabyddiaeth eang o'r cymorth a gynigir gan wirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd. Awgrymwyd y gellid defnyddio gwirfoddolwyr i ddatblygu gwasanaethau ychwanegol, helpu i gynnal y llyfrgell a gwella prosiectau penodol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai defnyddio gwirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth i wasanaethau llyfrgelloedd. Hefyd, esboniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

> "… the use of volunteers adds value not only to our service but to the wider community around us, helping people to develop new skills in a safe and welcoming environment."[47]

75. Er gwaethaf yr uchod, roedd consensws ymysg ymatebwyr, cyfranogwyr grwpiau ffocws ac ymatebwyr arolygon mai dim ond i ategu gwaith staff proffesiynol y dylid defnyddio gwirfoddolwyr. Wrth roi sylwadau ar y mater hwn, nododd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru:

> "… volunteers cannot be relied upon to provide the core service delivered by trained professionals (...) volunteers could be used to enhance services provided by staff but not to replace them."[48]

76. Adleisiodd Cyngor Dinas Casnewydd y sylwadau uchod gan bwysleisio'r angen am weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi i recriwtio, cynorthwyo, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr "to ensure that the public are receiving a safe and appropriate service". [49]

77. Cododd UNSAIN bryder ynghylch y "significant rise in the use of volunteers in library services", ac roedd o'r farn "can contribute to the undermining of a high quality public service". Wrth gyfeirio at y profiad yn Lloegr, nododd:

> "This is a wholly unsustainable model and goes against the statutory requirement for councils to provide a "comprehensive and efficient"

[46] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 23
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 22
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 09

service as part of the Public Libraries and Museums Act 1964. UNISON would be strongly against the promotion of community run libraries in Wales and maintain that library services are most effective when run directly by democratically accountable local councils."[50]

### *Achosion o gau gwasanaethau llyfrgelloedd a gostyngiadau posibl*

78. Clywsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr, yn cynnwys Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched Cymru, Cyngor Sir Penfro a CILIP Cymru Wales, bod maint y toriadau cyllidebol arfaethedig yn golygu y byddai mesurau i arbed costau fel cydleoli a strategaethau caffael cenedlaethol ond yn bodloni rhywfaint o'r arbedion sy'n ofynnol. Ni fyddai mesurau o'r fath yn ddigonol i atal dirywiad gwasanaethau llyfrgelloedd, yn cynnwys lleihau oriau agor, a chau llyfrgelloedd. Awgrymwyd hefyd i ni, mewn rhai amgylchiadau, y gall awdurdodau lleol fod yn methu â chyflawni eu dyletswyddau statudol.

79. Er bod ymatebwyr ar y cyfan yn derbyn na ddylai gwasanaethau llyfrgelloedd gael eu diogelu rhag toriadau cyllidebau, clywsom dystiolaeth oedd yn pwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ystyried gwerth cymdeithasol eang llyfrgelloedd wrth ystyried toriadau i wasanaethau, a'r graddau y gall gwario ar lyfrgelloedd leihau costau ymhellach i'r sector cyhoeddus, mewn meysydd fel y gwasanaeth iechyd. Ar y pwynt hwn, dywedodd Anabledd Cymru:

> "Whilst recognising that any proposal to close … libraries has been driven by the need to meet budget requirements, the closure of a library is the loss of a major community asset which has a disproportionate effect on the most disadvantaged members of society."[51]

80. Ymhellach, clywsom hefyd gan ymatebwyr, yn cynnwys Cynghorau Abertawe a Chasnewydd, CILIP Cymru Wales a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, a amlygodd y gyfran fechan o wariant awdurdodau lleol (yr amcangyfrifir ei fod yn llai nag 1 y cant) a gaiff ei gwario ar wasanaethau llyfrgelloedd, gan ddadlau na ddylai gwasanaethau llyfrgelloedd orfod wynebu toriadau anghymesur o fawr, yn enwedig gan na fyddai'r cyfryw doriadau yn arwain at arbedion sylweddol i awdurdodau lleol.

---

[50] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 04
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 31

81. Amlygodd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys Anabledd Cymru, Age Cymru a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched Cymru, pa mor bwysig ydyw i awdurdodau lleol ymgynghori'n llawn a chynnal asesiadau effaith mewn perthynas â chynigion i leihau gwasanaethau llyfrgelloedd er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o effaith bosibl penderfyniadau o'r fath ar aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym nad oeddent o'r farn fod hyn yn digwydd yn ddigon aml ar hyn o bryd.[52]

### *Arian grant*

82. Yn ogystal â thystiolaeth am effaith toriadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol, clywsom gan ymatebwyr am bwysigrwydd arian grant a sut y'i defnyddiwyd i wella cyfleusterau, ac, yn sgil hynny, i gynyddu nifer yr ymwelwyr. Ar y pwynt hwn, dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym:

> "Welsh Government's grants programmes have been a critical ingredient for many public library services in Wales, in helping to realise the vision within Libraries Inspire. (…)The continuation of grant programmes during this period will be a critical factor in stimulating development."[53]

83. Cytunodd tystion o Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru fod arian grant a gafwyd gan lyfrgelloedd wedi gwneud gwahaniaeth i'r modd y gellid darparu gwasanaethau:

> "For example, within my own authority, without the grant funding we would not have had the rooms available for these enhanced services that allow us to further engage with the community. That grant funding has been very important in allowing us to provide the added-value activities that we need to, and which our communities are now expecting from us."[54]

84. Clywsom hefyd am arwyddocâd yr elfen arian cyfatebol sy'n ofynnol i gael grantiau. Amlygwyd hyn gan Gynghorau Conwy a Sir Penfro, gyda Chyngor Sir Penfro yn dweud wrthym y byddai'r ffaith bod y gofyniad o ran arian cyfatebol yn amrywio o 10% i 25% "a particular problem over the next few years". Awgrymodd:

---

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 33
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05
[54] Cofnod y Trafodion, Para 283, 12 Chwe

> "A temporary period in which grant schemes offer 100% funding with only an 'in-kind' contribution should be considered by Welsh Government to stimulate development."[55]

85. Yn ogystal â gwella cyfleusterau, clywsom fod arian grant "has improved opportunities relating to training and development of staff and the provision of learning opportunities for the public through libraries."[56]

86. Yn olaf, cafwyd canmoliaeth i CyMAL o ran y cymorth a gafodd ynghylch arian grant. Ar y pwynt hwn, dywedodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru wrthym:

> "Without the support of the staff and CyMAL, which provides us with an awful lot of support through the grant funding programmes, we would struggle."[57]

### *Codi refeniw a chodi tâl am wasanaethau*

87. Gwnaethom ofyn i nifer o ymatebwyr p'un a oedd cyfle i lyfrgelloedd godi refeniw drwy gynnig 'gwasanaethau ychwanegol', e.e. llogi ystafelloedd a chyfleusterau i fusnesau lleol, er mwyn helpu i gynnal a chynorthwyo gwasanaethau craidd.

88. Wrth roi sylwadau ar yr uchod, awgrymodd CLlLC y gellid ystyried gwasanaethau fel llogi ystafelloedd mewn achosion lle y gall llyfrgelloedd wneud hynny. Fodd bynnag, byddai llawer yn dibynnu ar fodelau busnes llyfrgelloedd a'r adeiladau lle y'u lleolir.[58]

89. Ar fater cysylltiedig, ni welwyd unrhyw gefnogaeth gan ymatebwyr ynghylch codi refeniw drwy godi tâl am wasanaethau craidd. Roedd Anabledd Cymru o'r farn y gallai unrhyw ymgais i godi tâl arwain at "quite considerable implications" a "could become a disincentive for the kind of people we are trying to encourage into libraries".[59]

---

[55] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 05
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08
[57] Cofnod y Trafodion, para 173, 12 Chwefror 2014
[58] Cofnod y Trafodion, para 97, 12 Chwefror 2014
[59] Cofnod y Trafodion, para 104, 20 Chwefror 2014

90. Lleisiwyd safbwyntiau tebyg gan Plant yng Nghymru a ddywedodd y byddai codi tâl yn mynd yn groes i ddiben mynediad agored.[60]

**Tystiolaeth gan y Gweinidog**

***Cydweithredu***

91. Esboniodd y Gweinidog fod strategaeth llyfrgelloedd bresennol Llywodraeth Cymru, *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, "encourages the sector to innovate and seek new ways of collaboration, maximising the opportunities provided by new technology." Ymysg ei amcanion allweddol, mae:

- cydweithio er mwyn adolygu modelau presennol o ddarparu gwasanaethau mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, a datblygu modelau arloesol newydd o ddarpariaeth;
- datblygu prosesau gweithio mewn partneriaeth wrth gaffael a gwella mynediad i adnoddau.

92. Aeth ymlaen i esbonio:

> "The current financial context requires a renewed commitment to ensure that library services deliver relevant and resilient services through collaboration and joint working. There are many excellent examples of where this has been achieved under the Welsh Government's national strategy for libraries. However the challenges of the future will require a consideration of alternative service delivery models at the local, regional and national level."[61]

93. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd yr Adolygiad Arbenigol yn "consider potential sustainable models of service delivery identified from research and stakeholder consultation".[62]

94. Esboniodd fod tair partneriaeth ranbarthol yng Nghymru ar hyn o bryd "that are very much about pulling together those that provide library services and making sure that there is access to all of those libraries for the community in general".

[60] Cofnod y Trafodion, para 308-309, 20 Chwefror 2014
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014, Papur 1
[62] Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2014, Papur 1

95. Cred y Gweinidog y bydd System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan, yr oedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ei chaffael “will be a very important development”. Byddai'r system yn galluogi unigolyn i ddefnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru gan ddefnyddio un cerdyn llyfrgell. Nododd y byddai'n “more cost effective” ac yn “improve [service] quality”. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cam cyntaf y prosiect yn cael ei gyflwyno yn y gogledd yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15.[63]

### *Cydleoli*

96. Mewn perthynas â chydleoli, nododd y Gweinidog y gallai hyn “increase the value of the work that [libraries] do, by reaching new audiences and increasing usage quite substantially while at the same time saving money, because they are sharing overhead costs with other services”.[64]

97. Esboniodd bod modelau cydleoli "new and exciting", yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau awdurdodau lleol yn ogystal â phartneriaid allanol, yn dod i'r amlwg. Rhoddodd y Gweinidog enghreifftiau o'r hyn a oedd yn fodelau cydleoli llwyddiannus yng Nghynghorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr.

### *Rôl gwirfoddolwyr*

98. Wrth roi sylwadau ar rôl gwirfoddolwyr, nododd y Gweinidog:

> “[Volunteers] currently play a very important part in library service provision in Wales and that is absolutely right. There is no reason why we should not look to develop that volunteer involvement. However, we are very clear that it is a professional library service and in striking the appropriate balance, there must be that professional oversight.”[65]

99. Eglurodd fod canllawiau ar gael ar ddefnyddio staff gwirfoddol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd ac y byddai rôl gwirfoddolwyr yn cael ei hystyried fel rhan o'r Adolygiad Arbenigol.

---

[63] Cofnod y Trafodion, para 29, 120 a 121, 13 Mawrth 2014
[64] Cofnod y Trafodion, para 48, 13 Mawrth 2014
[65] Cofnod y Trafodion, para 128, 13 Mawrth 2014

*Grantiau a ffynonellau ariannu amgen*

100. O ran arian grant, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y cyhoeddiad ym mis Ebrill 2014 bod arian grant Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol wedi'i leihau o £3 miliwn i £1 filiwn y flwyddyn.[66] Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Gweinidog:

> "It is really a matter of available resource at any particular time. … as we are all acutely aware, … the financial situation is very difficult for us and local government. … Although the money has reduced, there will still be schemes in Wales moving forward. It is really important that we still have a capital grant scheme in current circumstances. Although the amounts involved will vary from year to year, we will ensure that that money is well used and we will continue to partner with local authorities around the bidding process."[67]

101. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog am ffynonellau ariannu amgen i awdurdodau lleol sy'n awyddus i foderneiddio eu llyfrgelloedd. Cadarnhaodd fod amrywiaeth o ffynonellau ariannu ar gael i awdurdodau lleol a oedd yn cynnwys arian Ewropeaidd yn ogystal ag arian Loteri posibl. Dywedodd y byddai'n ystyried y ffynonellau hyn.[68]

102. At hynny, rhoddodd y swyddog a oedd yn cefnogi'r Gweinidog nifer o enghreifftiau i ni o lyfrgelloedd a oedd wedi'u hadnewyddu gan ddefnyddio arian adfywio, gan gynnwys:

> "…in Bargoed with European funding and in Bangor with lottery money. I know that Cardiff has developed libraries with funding from planning funds—planning benefits and so on. A variety of sources have been used and, obviously, we are looking for any new ones to support the development of local library services."[69]

103. Nododd y Gweinidog hefyd fod arian arall ar gael y gall awdurdodau lleol o bosibl gael gafael arno er mwyn gwella cyfleusterau llyfrgell:

> "Jeff Cuthbert, the Minister for Communities and Tackling Poverty, announced a £10 million pot of money for community facilities and their

[66] Llywodraeth Cymru, Buddsoddi £2.2miliwn ar lyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd Cymru, 9 Ebrill 2014
[67] Cofnod y Trafodion, Para 53, 13 Mawrth 2014
[68] Cofnod y Trafodion, para 55, 13 Mawrth 2014
[69] Cofnod y Trafodion, para 60, 13 Mawrth 2014

> development. There are possibilities. Local authorities are able to borrow as well. We work with local authorities to explore this potential and to spread best practice and point them in the right direction, as it were."[70]

104. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog hefyd mai arian cyfalaf oedd yr arian hwn, "a one-off payment to develop community services, rather than recurrent funding".

**Ein barn ni**

105. Croesawn y trefniadau y mae awdurdodau lleol eisoes wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â chydweithio a chydleoli eu gwasanaethau llyfrgelloedd, a chlywsom dystiolaeth o rai enghreifftiau da o hyn ar draws awdurdodau.

**Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd.**

106. Nodwn fod nifer o sefydliadau ar draws awdurdodau lleol sydd â chyfleusterau llyfrgelloedd, gan gynnwys gwasanaethau llyfrgell prifysgolion ac ysgolion. Credwn fod angen gwneud mwy i alluogi'r adnoddau gwerthfawr hyn ac annog pobl i'w rhannu. Gofynnwn i'r Gweinidog ystyried hyn.

107. Nodwn, mewn perthynas â Lloegr, fod y cynnydd yn nifer y llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau wedi deillio'n bennaf o ostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau awdurdodau lleol. O ystyried maint y gostyngiadau cyllidebol sy'n wynebu awdurdodau yng Nghymru, ni fyddai'n afresymol tybio y gallai tuedd debyg ddilyn yng Nghymru.

108. Cydnabyddwn y cyfraniad gwerthfawr y gall, ac y mae, gwirfoddolwyr yn ei wneud wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd o fewn eu cymunedau a chredwn y dylent barhau i chwarae rôl yn y gwaith o bennu a darparu gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth na ddylai llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau fod yn ateb, ynddynt eu hunain, i'r problemau a achosir gan doriadau mewn cyllidebau awdurdodau lleol. Yn ein barn ni, dylai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd gael ei arwain gan

---

[70] Cofnod y Trafodion, para 57, 13 Mawrth 2014. Lansio Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol: http://wales.gov.uk/newsroom/communities/2014/10m-capital-fund-to-support-projects-to-tackle-poverty/?lang=cy

weithwyr proffesiynol sy'n dod â'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i'r rôl.

109. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd tebygol yn nifer y llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yng Nghymru yn y dyfodol, credwn ei bod yn bwysig i'r Gweinidog gymryd y camau angenrheidiol i baratoi ar gyfer hyn. Tynnwn sylw'r Gweinidog, a Phanel yr Adolygu Arbenigol, at y dystiolaeth a gawsom am y profiadau yn Lloegr ac argymhellion gan Gyngor Sir Penfro am sut i sicrhau y caiff gwasanaethau cyson o ansawdd uchel eu darparu gan lyfrgelloedd a reolir gan gymunedau yng Nghymru. Gofynnwn i'r argymhellion hyn gael eu hystyried.

**Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cymorth parhaus a'r canllawiau angenrheidiol ar gael er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.**

110. Er ein bod yn cydnabod y pwysau ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol, credwn mai dim ond fel dewis olaf y dylid cwtogi gwasanaethau a chau llyfrgelloedd, yn enwedig o ystyried gwerth cymdeithasol eang llyfrgelloedd yn ein cymunedau. Mae asesiadau effaith ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn bwysig, yn enwedig mewn achosion lle y cynigir newidiadau sylweddol i wasanaethau llyfrgelloedd, a phob amser yn achos cynigion i'w cau.

111. Bydd gostyngiadau mewn cyllidebau yn y dyfodol yn golygu y bydd dulliau eraill o ariannu yn dod yn fwyfwy pwysig i awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd. Gall y broses o wneud cais am fathau gwahanol o arian fod yn hirfaith a chymhleth, a byddai awdurdodau lleol ac eraill yn cael budd o gymorth proffesiynol parhaus yn hyn o beth.

**Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cymorth a chanllawiau digonol yn parhau i fod ar gael er mwyn i awdurdodau lleol nodi a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael.**

112. O ran arian grant, er ein bod yn croesawu'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol gwerth £10 miliwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mae gennym rai pryderon am allu awdurdodau lleol i gael gafael ar yr arian hwn i'w ddefnyddio gan lyfrgelloedd cyhoeddus. Byddem yn awyddus i gael eglurhad gan y Gweinidog ar y pwynt hwn. At hynny, pe bai arian o'r fath ar gael i lyfrgelloedd, mae gennym hefyd bryderon am eu gallu i gynnal gwasanaethau yn y blynyddoedd yn dilyn taliad untro.

113. O ran opsiynau codi refeniw i lyfrgelloedd, cytunwn â'r ymatebwyr y dylai gwasanaethau llyfrgelloedd craidd yng Nghymru, gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd, barhau am ddim. (Trafodir cynhwysiant digidol yn fanylach ym Mhennod 3).

114. Nodwn y dystiolaeth mai prin yw'r cyfleoedd i lyfrgelloedd godi refeniw mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy logi ystafelloedd. Fodd bynnag, credwn ei bod yn werth ystyried yr opsiynau hyn ymhellach.[71]

**Argymhellwn, er y dylai gwasanaethau craidd llyfrgelloedd barhau am ddim, y dylai'r Gweinidog ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol yr holl opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn i lyfrgelloedd godi refeniw.**

[71] Cofnod y Trafodion, para 60, 13 Mawrth 2014

# 3. Rôl gyfoes a chymunedol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

**Tystiolaeth gan ymatebwyr**

115. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth am rôl gyfoes a chymunedol llyfrgelloedd cyhoeddus. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr gyfraniad sylweddol llyfrgelloedd i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, Ar y pwynt hwn, disgrifiodd NFWI Cymru lyfrgelloedd fel "the hub of community life" a dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym fod llyfrgell yn "safe, neutral, cost-free and welcoming space that brings the community together."[72]

116. Mynegwyd y farn hon yn gryf gan gyfranogwyr ein grŵp ffocws, a dywedodd un ohonynt:

> "The local library isn't just a repository of books; it's a safe place I can go where I'm always greeted by friendly, helpful, professional staff."[73]

117. At hynny, nododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, CILIP Cymru Wales, Macmillan Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd gyfraniad llyfrgelloedd modern at ystod eang o feysydd polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys adfywio, twf a swyddi, addysg, iechyd a lles, trechu tlodi, cynhwysiant digidol, cymunedau diogel, hyrwyddo diwylliant a chydraddoldeb a chynwysoldeb. Nododd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru:

> "to significantly reduce the number of public libraries would critically undermine the comprehensive infrastructure and the community links that can help to deliver key national agenda strands."[74]

118. Dywedodd UNSAIN a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y gall llyfrgelloedd a gaiff eu rhedeg yn dda gefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill, helpu pobl i gael gafael ar y broses ddemocrataidd a lledaenu gwybodaeth bwysig. Cefnogwyd y farn hon gan gyfranogwyr yn ein grŵp ffocws, a drafododd eu defnydd o lyfrgelloedd er mwyn cael gafael ar wasanaethau awdurdodau lleol fel amserlenni bysiau, cynlluniau'r cyngor neu wybodaeth am gyfarfod â'u cynghorwyr lleol.

---

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 03
[73] Mae tystiolaeth y grŵp ffocws ar gael yn Atodiad 3
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 08

119. Dywedodd Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru fod llyfrgelloedd yn helpu'r rheini sy'n astudio mewn cymunedau lleol (gan gynnwys drwy gynlluniau benthyca cyfatebol) a'u bod yn rhan o'r broses o drosglwyddo o addysg uwch i ddysgu gydol oes. Nodwyd bod gan lawer o lyfrgelloedd cyhoeddus gasgliadau hanes lleol gwerthfawr, a bod angen ystyried y gwaith o ofalu am yr adnoddau hyn a'u darparu yn y dyfodol yng ngoleuni'r toriadau posibl i wasanaethau llyfrgelloedd.[75]

120. Cawsom hefyd dystiolaeth am y gwaith o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd modern, gan gynnwys adnoddau digidol fel e-gylchgronau a gwasanaethau clicio a chasglu, a mentrau cymunedol eraill gan gynnwys Her Ddarllen yr Haf a Diwrnod Cenedlaethol y Llyfrgelloedd.

121. O ran y gwasanaeth e-gylchgronau digidol am ddim, clywsom fod y cynllun Cymru gyfan, sy'n cynnwys llyfrgelloedd prifysgolion, addysg bellach ac iechyd yn ogystal â llyfrgelloedd cyhoeddus, yn galluogi aelodau llyfrgelloedd i gael gafael ar 250 o gylchgronau gwahanol am ddim.

### *Cynhwysiant digidol*

122. Cawsom lawer o dystiolaeth am gyfraniad pwysig llyfrgelloedd at gynhwysiant digidol. Nododd CILIP Cymru Wales "libraries should have a crucial role in connecting people in a digital world and ensuring universal access to literacy, learning and information". Aeth ymlaen i ddadlau fod y "role is needed more than ever today as part of ensuring that the divide between rich and poor in society does not increase and we build strong communities."[76]

123. Ystyriwyd bod gwasanaethau digidol hefyd yn bwysig iawn i bobl hŷn a phobl anabl, na fyddent fel arall yn gallu cael gafael ar wasanaethau llyfrgelloedd.

124. Dywedodd Anabledd Cymru fod llyfrgelloedd yn "gateway", sy'n galluogi pobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn eu cartrefi i gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus ar-lein, gan alluogi'r sector cyhoeddus i arbed arian drwy ddarparu gwasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod angen i awdurdodau fod yn gliriach am eu nodau i gynnal a gwella gwasanaethau llyfrgelloedd i bobl anabl ac i fod yn fwy uchelgeisiol yn hyn o

[75] Tystiolaeth Ysgrifenedig PL 14
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 19

beth.[77] Nododd CILIP Cymru Wales fod angen i wasanaethau digidol gael eu cefnogi'n briodol.

125. Clywsom gan y Brifysgol Agored fod y gallu i gael mynediad am ddim i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd yn chwarae "vital role" wrth gynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol drwy alluogi pobl i gael gafael ar adnoddau dysgu ar-lein am ddim. Dywedodd y Brifysgol Agored wrthym ei bod yn gweithio gyda llyfrgelloedd i annog pobl i ddefnyddio'r adnoddau e-ddysgu hyn.[78]

126. Nododd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws fod y galw am gael defnyddio cyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd yn aml yn fwy na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd. Awgrymodd rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd pe bai mwy o gyfrifiaduron, gan gynnwys dyfeisiau llechen modern, y byddent yn ymweld â llyfrgelloedd yn amlach.

### *Cyflawni diwygiadau lles Llywodraeth y DU*

127. Clywsom dystiolaeth am bwysigrwydd arbennig llyfrgelloedd wrth gyflawni diwygiadau lles digidol yn bennaf Llywodraeth y DU. Ar y pwynt hwn, nododd CILIP Cymru Wales:

> "… with more and more access to benefits coming online, libraries will be really important to help deliver things like universal credit."[79]

128. Dywedodd CLlLC wrthym fod llyfrgelloedd wedi chwarae "more direct role" wrth fynd i'r afael â thlodi dros y degawd diwethaf drwy weithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. Aeth ymlaen i ddweud fod llyfrgelloedd, yn fwy diweddar, wedi dod yn adnodd cymunedol pwysig wrth helpu pobl i hawlio Budd-daliadau Cynhwysol a'u galluogi i fanteisio ar yr ystod eang o gymorth statudol a gwirfoddol.[80]

129. Amlygodd Anabledd Cymru bwysigrwydd llyfrgelloedd i bobl anabl a fyddai'n cael Credyd Cynhwysol ar ôl iddo gael ei gyflwyno:

> "This will have a major impact for disabled people and for libraries. Disabled people will be expected to be 'Digital by Default' and [not]

[77] Cofnod y Trafodion, para 26, 20 Chwefror 2014
[78] Tystiolaeth Ysgrifenedig PL 20
[79] Cofnod y Trafodion, para 284, 12 Chwefror 2014
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 28

being online will not be an option as everyone will be expected to claim via the internet."[81]

### *Gwerth llyfrgelloedd i bobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas*

130. Clywsom fod llyfrgelloedd cyhoeddus yn wasanaeth arbennig o werthfawr i bobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas, fel pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn, a'r rheini sy'n chwilio am waith, ac yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Disgrifiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn, yr help penodol a roddir gan lyfrgelloedd i unigolion anabl a difreintiedig, gan gynnwys gwasanaeth dosbarthu llyfrau i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi, darparu llyfrau llafar a fersiynau hygyrch eraill, a'r Gwasanaeth Llyfrau ar Bresgripsiwn.

131. Dywedodd Age Cymru wrthym fod mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd lle y gall pobl gwrdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn hollbwysig:

> "Such opportunities are greatly valued by many older people and can help to prevent isolation, loneliness and health decline."[82]

132. Clywsom gan RNIB Cymru fod llyfrgelloedd, pan fyddant yn hygyrch i bobl ddall neu rannol ddall, yn gallu helpu i leihau ynysu ac allgau cymdeithasol.[83]

133. Nododd Anabledd Cymru ganlyniadau negyddol cau llyfrgelloedd cyhoeddus i bobl anabl, a allai arwain at ynysu; ymddieithrio o'u cymunedau; a chymryd rhan mewn llai o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.

134. Clywsom hefyd am bwysigrwydd llyfrgelloedd i deuluoedd incwm isel sy'n agored i niwed nad oes ganddynt o bosibl yr adnoddau i brynu llawer o lyfrau i'w plant, ac y mae eu llyfrgell leol yn cynnig cyfle gwerthfawr iddynt hefyd i ryngweithio'n gymdeithasol.[84]

---

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 31
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 24
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 21
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig PL 01

**Tystiolaeth gan y Gweinidog**

***Cynhwysiant digidol a chyflawni diwygiadau lles Llywodraeth y DU***

135. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod strategaeth cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru, sef 'Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru', yn cydnabod y rôl bwysig y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei chwarae wrth ddarparu mynediad ar-lein a meithrin sgiliau TGCh mewn cymunedau:

136. O ran diwygiadau lles 'digidol yn bennaf', dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi "tried to work with DWP to make clear that these are additional responsibilities for our library staff in Wales and that there are training aspects in terms of library staff fulfilling a role that was not traditionally one that they delivered and that has funding implications." Aeth ymlaen i ddweud:

> "… our case to DWP is and will be that it should provide funding to recognise these additional requirements."[85]

137. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am effaith llai o wasanaethau llyfrgell ar y gallu i gael gafael ar wasanaethau DWP drwy lwybrau digidol. Mewn ymateb i hyn, dywedodd:

> "…provision of online services and help with the necessary skills is in place right across Wales and has not been damaged, as yet, by any of the changes that have taken place or been proposed in terms of people's ability to do what is required of them as part of universal credit and universal jobmatch."[86]

138. At hynny, cyfeiriodd swyddog y Gweinidog at brosiect cydweithredol rhwng Cymunedau 2.0, y Ganolfan Byd Gwaith a llyfrgelloedd cyhoeddus.[87]

139. O ran y gwasanaeth e-gylchgronau digidol am ddim, cadarnhaodd y Gweinidog fod hwn wedi'i gaffael fel gwasanaeth i Gymru gyfan a'i fod yn cael ei ariannu'n rhannol drwy grant ac yn rhannol gan awdurdodau lleol. Dywedodd wrthym fod y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi "trebled in three

---

[85] Cofnod y Trafodion, para 148, 13 Mawrth 2014
[86] Cofnod y Trafodion, para 141, 13 Mawrth 2014
[87] Cofnod y Trafodion, para 142, 13 Mawrth 2014

months … from the start”, ac ym mis Ionawr 2014, fod 15,800 o gylchgronau wedi cael eu lawrlwytho drwy'r cynllun hwn.[88]

### *Gwerth llyfrgelloedd i aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed*

140. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog p'un a oedd yn fodlon na fyddai cwtogi ar wasanaethau llyfrgelloedd oherwydd gostyngiadau mewn cyllidebau awdurdodau lleol yn cael effaith andwyol gymesur ar aelodau o'r gymdeithas sy'n agored i niwed. Mewn ymateb i hyn, dywedodd:

> “we work with local authorities very closely, and I have regular meetings with the lead officials and cabinet members. Of course, our officials are constantly working with local authorities to understand their current thinking and plans … but local authorities obviously have their autonomy.”

141. Aeth ymlaen i ddweud:

> “However, as part of any changes that they might make … we expect proper consultation and we expect impact assessments to be made. They would be very much about understanding the potential impact on the more vulnerable people in our communities.”[89]

### *Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau llyfrgelloedd*

142. Dywedodd y Gweinidog fod “the promotional aspect of library services is important” for the Welsh Government. Dywedodd wrthym:

> “Wrexham library service is leading across Wales in terms of doing some work and taking action around social media, for example, and newspaper advertisements to get the central message across about what our library services offer today.”[90]

### Ein barn ni

143. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod pobl yn teimlo bod llyfrgell gyfoes yn llawer mwy na lle i fenthyg llyfrau. Mae'n fan cyhoeddus diogel, am ddim, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwerthfawr i'r gymuned.

---

[88] Cofnod y Trafodion, para 44, 13 Mawrth 2014
[89] Cofnod y Trafodion, para 113-114, 13 Mawrth 2014
[90] Cofnod y Trafodion, para 150, 13 Mawrth 2014

144. Mae llyfrgelloedd yn gwneud cyfraniad unigryw at gynifer o agweddau ar fywyd cymunedol, gan gynnwys addysg, iechyd a lles, trechu tlodi ac allgau cymdeithasol. Yn ein barn ni, nid oes digon yn cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i hyn na'r ystod eang o wasanaethau y mae llyfrgelloedd modern yn eu cynnig. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i ni yn yr enghraifft o'r gwasanaeth e-gylchgronau, nad oes llawer o bobl yn ymwybodol ohono yn ôl pob golwg, er ei fod yn galluogi aelodau o lyfrgelloedd i gael gafael ar nifer sylweddol o gylchgronau am ddim yn electronig.

**Argymhellwn y dylai'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn well.**

145. Cydnabyddwn yr enghreifftiau gwych o waith a wnaed gan lyfrgelloedd ledled Cymru mewn perthynas â chynhwysiant digidol. Daw'r gallu i fynd ar-lein a chael gafael ar wasanaethau'n ddigidol yn rhywbeth fwyfwy pwysig yn y dyfodol. Bydd gan lyfrgelloedd rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi eu cymunedau i wneud hyn. Felly, credwn ei bod yn hollbwysig y dylai mynediad i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd yng Nghymru barhau am ddim. (Mae Argymhelliad 3 yn cyfeirio at hyn).

146. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog am y cyfrifoldebau ychwanegol i staff llyfrgelloedd mewn perthynas â chefnogi'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol a Pharu Swyddi, a'r goblygiadau ariannu sy'n gysylltiedig â hyn.

**Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i fynd ar drywydd yr achos dros gael arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau cynyddol sydd gan staff llyfrgelloedd yng Nghymru i gefnogi'r broses o gyflwyno diwygiadau lles digidol yn bennaf.**

## Atodiad 1: Ein hymchwiliad

1. Ar 20 Tachwedd 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

### Cylch gorchwyl

2. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

I ystyried—

- i ba raddau y gwnaed cynnydd gan Lywodraeth Cymru tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â llyfrgelloedd, a pha mor gynaliadwy y mae unrhyw gynnydd yn yr hinsawdd;
- i ba raddau y mae'r fframweithiau deddfwriaethol a pholisi presennol yn addas i ateb yr heriau a wynebir gan awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- pa mor barod yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i liniaru effaith toriadau yn y sector cyhoeddus ar wasanaethau llyfrgelloedd;
- opsiynau ar gyfer gwella cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau llyfrgelloedd, gan gynnwys modelau darparu amgen;
- rôl gyfoes a chymunedol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

### Dull Gweithredu

3. Rhwng 21 Tachwedd 2013 a 17 Ionawr 2014, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn llywio ei ymchwiliad, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno.

4. Cafwyd 33 o ymatebion ysgrifenedig ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad. Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad 2.

5. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda nifer o randdeiliaid. Mae'r manylion ar gael yn Atodiad 2.

### Gwaith allgymorth

6. Ar ddiwedd 2013 a dechrau 2014, trefnodd Gwasanaeth Allgymorth y Cynulliad nifer o grwpiau ffocws gyda defnyddwyr llyfrgelloedd. At hynny,

hyrwyddwyd arolwg am yr ymchwiliad drwy ffrydiau cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad a gyda chymorth sefydliadau allanol perthnasol. Dosbarthwyd fersiynau papur o'r arolwg ar gais.

7. Mae canlyniadau'r arolwg (yn cynnwys data demograffig) a chyfrif o ganfyddiadau'r grwpiau ffocws ar gael yn Atodiad 3.

## Atodiad 2A: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod.

**12 Chwefror 2014**

| | |
|---|---|
| Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Peter Gomer, Cynghorwr Polisi, Hamdden, Diwylliant, Twristiaeth a Threftadaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Richard Hughes, Cynghorwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phennaeth Dros Dro Byw'n Iach, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Carol Edwards, Cadeirydd Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru | Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth |
| Mandy Powell, Swyddog Polisi, Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru | Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth |
| Jane Sellwood, Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru | Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth |

**20 Chwefror 2014**

| | |
|---|---|
| Rhian Davies, Prif Weithredwr | Anabledd Cymru |
| Cathryn Marcus, Cyfarwyddwr Cymunedau 2.0, prosiect cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru | Cymunedau 2.0 |

| | |
|---|---|
| Graeme Francis, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus | Age Cymru |
| Ceri Cryer, Cynghorwr Polisi | Age Cymru |
| Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi | Plant yng Nghymru |
| Catriona Williams, Prif Weithredwr | Plant yng Nghymru |

**5 Mawrth 2014**

| | |
|---|---|
| Mike Cavanagh, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol | Cyngor Sir Penfro |
| Jane Davies, Uwch-reolwr Gwasanaethau Diwylliannol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mark Jewell, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell | Cyngor Sir Caerfyrddin |

**13 Mawrth 2014**

| | |
|---|---|
| John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon | Llywodraeth Cymru |
| Linda Tomos, Cyfarwyddwr CyMAL | Llywodraeth Cymru |
| Huw Evans, Tîm Datblygu Llyfrgelloedd CyMAL | Llywodraeth Cymru |

## Atodiad 2B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8295

| Sefydliad | Cyfeirnod |
|---|---|
| Charmaine Rolland | PL 01 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | PL 02 |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru | PL 03 |
| UNSAIN | PL 04 |
| Cyngor Sir Penfro | PL 05 |
| Paul Hobbs | PL 06 |
| Cyngor Sir y Fflint | PL 07 |
| Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru | PL 08 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | PL 09 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | PL 10 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | PL 11 |
| Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall | PL 12 |
| Stuart Cliffe | PL 13 |
| Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru | PL 14 |
| Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ynys Môn | PL 15 |
| Ymddiriedolaeth Carnegie y DU | PL 16 |
| Cymorth Canser Macmillan | PL 17 |
| Llyfrgelloedd Blaenau Gwent | PL 18 |
| Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru | PL 19 |
| Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru | PL 19a |

| | |
|---|---|
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | PL 20 |
| Dinas a Sir Abertawe | PL 21 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | PL 22 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | PL 23 |
| Age Cymru | PL 24 |
| Cyngor Sir Fynwy | PL 25 |
| Cyngor Gwynedd | PL 26 |
| Cyngor Sir Powys | PL 27 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PL 28 |
| Gwybodaeth ychwanegol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | PL 28a |
| Grŵp Gweithredu ar Achub Llyfrgell Pennard | PL 29 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | PL 30 |
| Anabledd Cymru | PL 31 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | PL 32 |
| Plant yng Nghymru | PL 33 |

## Atodiad 3: Tystiolaeth y Grŵp Ffocws

### Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus
### Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

### Grwpiau sy'n defnyddio'r llyfrgell

**Grŵp**: Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele - Llyfrgell Abergele
**Etholaeth**: Gorllewin Clwyd
**Rhanbarth**: Gogledd Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 9

*Grŵp sy'n cyfarfod unwaith bob mis yn Llyfrgell Gyhoeddus Abergele. Mae'r grŵp yn cyfarfod i drafod llyfrau y mae'r aelodau wedi'u darllen dros y mis diwethaf a rhannu nodiadau ar unrhyw lyfrau a oedd yn dda iawn yn eu barn hwy.*

*Roedd y grŵp yn cynnwys amrywiaeth o ddynion a menywod canol oed a hŷn. Roedd pob un ohonynt yn byw yn y dref neu'r ardal gyfagos.*

**Grŵp**: Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt - Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt
**Etholaeth**: Brycheiniog a Sir Faesyfed
**Rhanbarth**: Canolbarth a Gorllewin Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 6

*Grŵp sy'n cyfarfod unwaith bob mis yn y llyfrgell leol i drafod llyfr dethol yw Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt. Mae gan y grŵp flog ar-lein hefyd: http://builthwellsreadinggroup.blogspot.co.uk/ sy'n cynnwys manylion am lyfrau y mae'r aelodau wedi'u darllen ac adolygiadau'r grŵp. Mae'r grŵp yn annog aelodau o'r cyhoedd i ymuno â'r grŵp, ac mae'n rhoi rhagor o wybodaeth am y llyfrgell a'r testunau sydd ar gael i'w benthyg. Defnyddir #BuilthBooks ar Twitter i hyrwyddo'r Grŵp Darllen.*

Roedd y grŵp yn cynnwys amrywiaeth o fenywod ifanc a chanol oed a oedd yn byw naill ai yng nghanol y dref neu ar ei chyrion. Roedd pob un ohonynt yn gweithio'n llawn amser.

**Grŵp**: Clwb Sgwrsio Caerdydd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd
**Etholaeth**: Canol Caerdydd
**Rhanbarth**: Canol De Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 8

*Grŵp sy'n cyfarfod bob wythnos yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd. Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerdydd sy'n gyfrifol am y grŵp. Y nod yw galluogi pobl sy'n dysgu Saesneg i ddod ynghyd i wella eu sgiliau iaith drwy siarad a sgwrsio'n anffurfiol.*

*Roedd y grŵp yn cynnwys amrywiaeth o ddynion a menywod ifanc o wledydd tramor. Roedd rhai ohonynt wedi symud i'r DU yn ddiweddar i chwilio am waith neu ddilyn astudiaethau.*

**Grŵp**: Grŵp Gwau Clydach, Llyfrgell Clydach
**Etholaeth**: Gŵyr
**Rhanbarth**: Gorllewin De Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 8

*Mae Grŵp Gwau Llyfrgell Clydach yn cyfarfod bob wythnos i wau a chymdeithasu. Mae'r llyfrgell yn cynnal amrywiaeth o grwpiau a chlybiau ar gyfer yr aelodau ac mae'n gwahodd grwpiau newydd i gynnal sesiynau yn rheolaidd er mwyn gweld pa mor boblogaidd ydynt yn y gymuned. Mae'r grŵp gwau yn boblogaidd iawn - gyda mwy nag wyth aelod rheolaidd yn dod bob wythnos.*

*Roedd y grŵp yn cynnwys menywod canol oed a hŷn. Roedd rhai o aelodau'r grŵp wedi ymddeol yn ddiweddar, ac roedd rhai eraill yn dioddef o salwch a thrafferthion corfforol.*

**Grŵp**: Babis Bach Blaenau, Llyfrgell Blaenau Ffestiniog
**Etholaeth**: Dwyfor Meirionydd
**Rhanbarth**: Canolbarth a Gorllewin Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 6

*Grŵp o famau a babanod o Flaenau Ffestiniog a'r dalgylch. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn y llyfrgell ddwywaith yr wythnos, ar brynhawn dydd Llun ar gyfer Babis Bach Blaenau ac ar fore dydd Gwener ar gyfer Story Time.*

*Grŵp o famau ifanc yn byw yn yr ardal oedd hwn. Roedd pob un o'r aelodau'n cerdded i'r llyfrgell ac roedd gan rai ohonynt blant oedran ysgol hefyd.*

**Grŵp**: Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg, Llyfrgell Rhosneigr
**Etholaeth**: Ynys Môn
**Rhanbarth**: Gogledd Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 3

*Grŵp o unigolion sydd yn mynd i grŵp darllen Cymraeg i ddysgwyr unwaith y mis ar brynhawn dydd Iau. Mae aelodau'r grŵp yma hefyd yn mynd i ddosbarth Cymraeg unwaith y mis lle maent yn dysgu'r iaith.*

*Grŵp o ferched canol oed a oedd yn dysgu Cymraeg. Roeddent yn byw yn Rhosneigr neu'r dalgylch.*

**Grŵp**: Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd, Llyfrgell Ganolog Casnewydd
**Etholaeth**: Gorllewin Casnewydd
**Rhanbarth**: Dwyrain De Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 2

*Grŵp sy'n cyfarfod unwaith bob wythnos yn Llyfrgell Ganolog Casnewydd yw 'Read Aloud'. Mae 'Read Aloud' yn rhan o fenter The Reader Organisation, 'Get Into Reading', sy'n annog pobl i ddarllen gyda'i gilydd er mwyn rhannu'r profiad (yn hytrach na darllen am resymau academaidd). Sesiwn galw heibio ydyw ac nid oes angen paratoi ymlaen llaw. Bydd arweinydd y grŵp yn darparu darnau dethol o nofelau, straeon byrion a cherddi i'r grŵp eu darllen yn uchel (os ydynt am wneud hynny) a'u trafod yn ystod y sesiwn. Mae gan rai o aelodau'r grŵp nam ar y golwg, mae rhai wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, mae rhai yn dibynnu'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae gan eraill broblemau iechyd meddwl a/neu anghenion ychwanegol.*

*Roedd dwy fenyw hŷn yn aelodau o'r grŵp; roedd un ohonynt yn byw'n annibynnol ac roedd y llall yn byw mewn bloc o fflatiau preswyl.*

*Cawsom wybod iddi fod yn anodd cyrraedd y llyfrgell yn ddiweddar gan fod y Cyngor yn adnewyddu'r orsaf fysiau, ac mae safleoedd bws dros dro wedi'u creu ledled y ddinas.*

**Grŵp**: Grŵp Darllen Rhuthun, Llyfrgell Rhuthun
**Etholaeth**: Gorllewin Clwyd
**Rhanbarth**: Gogledd Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 13

*Mae Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun yn cyfarfod ar yr ail ddydd Mercher bob mis am 19.30 i drafod llyfr dethol.*

*Roedd dynion a menywod yn rhan o'r grŵp. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn hŷn ond roedd rhai pobl ifanc hefyd. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r grŵp yn siarad Cymraeg ac roedd rhai eraill yn dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn byw yn Rhuthun neu'r ardal wledig gyfagos.*

## Grwpiau nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell

**Grŵp**: Prosiect Llais Cyfartal, Ysgol Gorllewin Mynwy
**Etholaeth**: Torfaen
**Rhanbarth**: Dwyrain De Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 5

**Gwybodaeth Gefndirol:** *Fforwm Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yw'r Prosiect Llais Cyfartal. Mae'r prosiect wedi'i leoli yn Ysgol Gorllewin Mynwy.*

**Grŵp**: Grŵp Saesneg
**Etholaeth**: De Caerdydd a Phenarth
**Rhanbarth**: Canol De Cymru
**Nifer y cyfranogwyr**: 4

**Gwybodaeth Gefndirol:** *Roedd y teulu a gymerodd ran yn y grŵp ffocws yn dymuno aros yn ddienw. Maent wedi byw yng Nghaerdydd am bron i dair blynedd, ar ôl symud o'r Aifft a Somalia yn y 2000au cynnar. Maent yn cael gwersi tiwtora wythnosol mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg.*

**Grŵp:** Taran
**Etholaeth:** Ynys Môn
**Rhanbarth:** Gogledd Cymru
**Nifer y cyfranogwyr:** 2

**Gwybodaeth Gefndirol:** *Mae Taran yn sefydliad sy'n darparu llais i bobl anabl ac yn rhoi cyfleoedd iddynt fyw bywyd mwy annibynnol drwy gynnig hyfforddiant, cymorth, datblygu sgiliau cymdeithasol ac adeiladu hyder. Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys un aelod o staff ac un defnyddiwr gwasanaeth.*

## Tystiolaeth grwpiau sy'n defnyddio'r llyfrgell

| **Cwestiwn 1: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus?** | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn defnyddio Llyfrgell Abergele a Llyfrgell Bae Colwyn o leiaf unwaith bob mis i fynd i'r grŵp darllen misol, defnyddio'r llungopïwr neu fenthyg llyfrau.<br><br>Mae un o'r cyfranogwyr hefyd yn defnyddio'r llyfrgell deithiol unwaith bob mis, ac mae hynny'n ddefnyddiol yn ei barn hi. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | Roedd holl aelodau'r grŵp yn dweud eu bod yn defnyddio'r llyfrgell ddwywaith yr wythnos i fynd i grŵp Babis Bach Blaenau a Story Time ar ddydd Gwener.<br><br>Roedd un aelod o'r grŵp yn dweud ei bod yn defnyddio'r llyfrgell tua phedair gwaith yr wythnos, ar gyfer y grwpiau gyda'r babis ond hefyd fel y gall ei mab, sydd yn yr ysgol, ddefnyddio'r cyfrifiadur i argraffu ei waith cartref a defnyddio'r we. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | Roedd rhai o aelodau'r grŵp yn defnyddio'r llyfrgell bob dydd, gan ddefnyddio adnoddau'r llyfrgell ar-lein ac adnoddau fel cylchgrawn Llyfrgelloedd Sir Powys, 'Cyfnod Silff', tra bod rhai eraill yn ymweld â'r llyfrgell bob wythnos neu bob pythefnos.<br><br>Roedd un o'r cyfranogwyr yn gweithio gartref ac yn defnyddio adnoddau'r llyfrgell ar-lein bob dydd, tra bod cyfranogwr arall yn ymweld â'r llyfrgell o leiaf unwaith bob wythnos fel rhan o'i gwaith yn gofalu am oedolyn ag anawsterau dysgu. |

| | |
|---|---|
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r grŵp yn defnyddio llyfrgelloedd o leiaf unwaith yr wythnos er mwyn cymryd rhan yn y clwb sgwrsio. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn defnyddio'r llyfrgell mor aml â bob dydd, ac yn ei defnyddio sawl gwaith yr wythnos fel arfer. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | Dywedodd pob un o aelodau'r grŵp ei fod yn defnyddio'r llyfrgell yng Nghlydach yn rheolaidd: bob dydd, y rhan fwyaf o ddyddiau, bob wythnos a bob pythefnos. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | Mae dau aelod o'r grŵp yn defnyddio'r llyfrgell unwaith y mis i fenthyg llyfrau a mynd i'r grŵp darllen a'r dosbarth dysgu Cymraeg.<br><br>Roeddent yn crybwyll bod y ddau aelod arall o'r grŵp yn defnyddio'r llyfrgell llawer yn fwy na hwythau. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | Mae'r cyfranogwyr yn defnyddio Llyfrgell Ganolog Casnewydd (neu eu llyfrgell leol) o leiaf unwaith bob wythnos. Mae'r ddau yn mynd i'r sesiynau 'Read Aloud' bob wythnos, a gwnaethant awgrymu efallai y byddant yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau bob pythefnos. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn defnyddio'r llyfrgell o leiaf unwaith bob wythnos gydag un cyfranogwr yn ei defnyddio unwaith bob tair wythnos, ac un arall unwaith bob mis. |
| **Cwestiwn 2: Pam rydych chi'n defnyddio'r llyfrgell?** | |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | • Mynd i grwpiau darllen;<br>• Llungopïo;<br>• Benthyg llyfrau;<br>• Darllen adroddiadau Which? sydd ar gael am ddim yn y llyfrgell, felly nid oes angen iddynt dalu i weld pob adroddiad newydd;<br>• Casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol er enghraifft gwybodaeth am y clwb rotari;<br>• Amserlenni bws;<br>• Bagiau ailgylchu;<br>• Archebu llyfrau o lyfrgelloedd eraill - gwasanaeth sy'n ddefnyddiol iawn, yn eu barn hwy. Dywedodd un o'r cyfranogwyr nad oedd yn gallu dod o hyd i lyfr yn unman a llwyddodd y staff yn llyfrgell Abergele gael gafael ar gopi iddi o Lerpwl am ffi fechan. Nododd un o'r cyfranogwyr na fyddai unrhyw ffi i'w thalu pe bai'r llyfr wedi dod o lyfrgell yng Nghymru.<br>• Defnyddio cyfrifiaduron;<br>• Mae un o'r cyfranogwyr yn defnyddio'r llyfrgell er mwyn defnyddio llyfrau llafar ac e-lyfrau.<br><br>Soniodd y grŵp am wasanaethau eraill a oedd ar gael yn y llyfrgell hefyd nad oeddent yn eu defnyddio yn bersonol. Pethau fel y gwasanaeth dosbarthu i bobl na allant gyrraedd y llyfrgell |

| | |
|---|---|
| | eu hunain. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | • Ar gyfer y grŵp babis;<br>• Er mwyn defnyddio'r cyfrifiadur a'r argraffydd;<br>• Mynd i grwpiau eraill. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | • Benthyg llyfrau, e-lyfrau ac e-gylchgronau: roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n rhy ddrud o lawer i brynu'r holl lyfrau yr oeddent yn eu darllen, gan fod "*stoc Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt yn dda ac yn amrywiol*"; <br> • Darllen y papur newydd lleol; <br> • Benthyg DVDs (Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt yw'r unig le yn y dref bellach lle gellir benthyg/rhentu DVDs); <br> • Defnyddio Wi-Fi - roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo bod hwn yn wasanaeth hanfodol gan ei bod yn gweithio gartref. Mae'n rhoi'r cyfle iddi weithio y tu allan i'w chartref os yw'n dymuno gwneud hynny); <br> • Cyfarfodydd grŵp; <br> • Archebu llyfrau os na fydd copïau ar gael eisoes. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau. Mae'r holl gyfranogwyr yn mynd i'r Clwb Sgwrsio bob wythnos. <br> Roedd nifer o gyfranogwyr yn defnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell a'r papurau newydd. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | • Benthyg llyfrau; <br> • Mynd i gyfarfodydd grŵp (e.e. gwau, darllen a hanes teuluol) a chyfarfod â phobl newydd/cymdeithasu - roedd y grŵp yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y pethau hynny i bobl hŷn.  Mae'r grwpiau a gwasanaeth y llyfrgell yn ffordd iddynt rannu gwybodaeth a gwella/parhau â'u profiadau dysgu, yn ogystal â bod yn ffordd o fynd i'r afael â theimladau o fod wedi'ch ynysu ac unigrwydd; |

| | |
|---|---|
| | • Defnyddio'r cyfrifiaduron - mae cyfrifiaduron y llyfrgell yn boblogaidd iawn ac mae angen trefnu lle ymlaen llawn fel arfer. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | • Benthyg llyfrau;<br>• Mynd i grŵp darllen;<br>• Mynd i ddosbarth Cymraeg;<br>• Boreau coffi;<br>• Grwpiau celf - unwaith yr wythnos;<br>• Sesiwn gyda'r cynghorydd lleol i drafod materion lleol yn anffurfiol - unwaith yr wythnos;<br>• Defnyddio cyfrifiaduron a Wi-Fi;<br>• Grŵp te. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | Mae'r cyfranogwyr yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau yn bennaf.<br>Mae adeilad Llyfrgell Ganolog Casnewydd yn cynnwys Amgueddfa, Oriel a Chanolfan Groeso. Oherwydd hynny, dywedodd y cyfranogwyr eu bod hefyd yn defnyddio'r llyfrgell am y rhesymau canlynol:<br>• Gweld arddangosfa newydd yn yr Oriel; |

| | |
|---|---|
| | • Clywed sgyrsiau gan awduron;<br>• Defnyddio'r adran gyfeirio i wneud ymholiadau cyffredinol; a<br>• Mynd i grwpiau fel 'Reading Aloud'.<br><br>Dywedodd y ddau gyfranogwr eu bod wedi rhoi cynnig ar o leiaf un o'r digwyddiadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddodd Melanie Sheridan, arweinydd grŵp 'Reading Aloud' ychydig o wybodaeth gefndirol:<br><br>*Roedd hi'n brofiad arbennig darllen bob wythnos gyda chleientiaid a oedd yn dioddef o ddementia yn y camau cynnar. Gwnaethom ddysgu bod y cleientiaid hyn yn dal gafael ar y gallu i ddarllen yn hirach na'r disgwyl a, dros y tri mis y buom yn ymweld â Chanolfan Hillside, gwnaethom weld pobl a oedd yn cael trafferth i gynnal sgwrs â rhywun yn llwyddo i ddarllen yn rhugl a rhoi sylwadau ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddarllen.*<br><br>*Rhoddodd y sesiwn ymdeimlad o 'berthyn' i grŵp o bobl a oedd mewn perygl o gael eu hynysu o gymdeithas o ganlyniad i ddatblygiad y cyflwr. Roedd eu hymatebion i'r hyn a glywsant yn aml yn hiraethus, yn hunangofiannol ac yn ddifyr - hynny yw, roeddent yn union fel y grwpiau erial y buom yn darllen gyda hwy. Y peth pwysig oedd eu bod yn mwynhau darllen.*"<br><br>Mae model darllen 'Read Aloud' yn ei gwneud yn bosibl i bobl gymryd rhan yn ddienw, heb fod angen iddynt ymrwymo i ddarllen llyfr/darn o ryddiaith cyn y cyfarfod. Mae hynny'n golygu y darperir ar gyfer pobl a all fod yn dioddef o gyflyrau corfforol neu feddyliol, yn ogystal â gofalwyr, er enghraifft, a allai fod mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol ac mae'n gwella eu hymdeimlad o iechyd a lles. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | • Benthyg llyfrau;<br>• Cadw golwg ar gynlluniau'r cyngor sir sy'n cael eu harddangos yn y llyfrgell;<br>• Darllen cylchgronau a phapurau newydd;<br>• Y llyfrgell gyfeirio;<br>• Arddangosfeydd celf;<br>• Grwpiau darllen;<br>• Grŵp dysgwyr Cymraeg;<br>• Gweithgareddau *Twf* i fabanod;<br>• Archebu tocynnau ar gyfer y theatr leol;<br>• Help gyda TG<br>• Lle cyfforddus i fwyda eu babanod ar y fron;<br>• Amrywiaeth dda o lyfrau celf;<br>• benthyg DVDs am ddim;<br><br>Nododd rhai o'r cyfranogwyr fod y cyfrifiaduron â chysylltiad rhyngrwyd yn brysur bob amser, er nad ydynt yn defnyddio'r cyfleusterau hynny eu hunain. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 3: Ar gyfer beth y byddwch yn defnyddio eich llyfrgell amlaf?** | |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | Ar gyfer y grwpiau darllen ac i fenthyg llyfrau o bryd i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r grŵp yn defnyddio'r gwasanaethau eraill sydd ar gael iddynt fel y bo angen, er enghraifft, pan fo angen bin ailgylchu newydd arnynt. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | Ar gyfer y grwpiau babis ac er mwyn defnyddio'r cyfrifiaduron. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | Ar gyfer y llyfrau (gan gynnwys e-lyfrau ac e-gylchgronau).<br><br>At hynny, roedd y grŵp yn teimlo bod y llyfrgell yn bwynt cyswllt pwysig er mwyn i bobl yn y gymuned weld beth oedd yn digwydd yn y dref a'r hyn a oedd ar yr hysbysfwrdd yno. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Er mwyn mynd i'r Clwb Sgwrsio - dyma'r unig glwb o'i fath yng Nghaerdydd. Roedd y gweithgareddau eraill yr oeddent yn mynd iddynt yn cynnwys perfformiadau cerddoriaeth fyw ar brynhawn dydd Sadwrn.<br><br>Dywedodd nifer o gyfranogwyr mai'r adnoddau, yn enwedig y llyfrau, oedd y prif reswm yr oeddent yn defnyddio'r llyfrgell. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Gwau Clydach* | • Benthyg llyfrau;<br>• Cyfarfodydd grŵp;<br>• Defnyddio cyfrifiaduron;<br>• Am yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael (sgyrsiau, trafodaethau, arddangosfeydd ac ati). |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | Ar gyfer y grwpiau darllen, dosbarth Cymraeg ac er mwyn benthyg llyfrau. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | • Benthyg llyfrau/llyfrau llafar (roedd un o'r cyfranogwyr yn rhannol ddall);<br>• Dibenion hamdden;<br>• Gwaith cyfeirio. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | Roedd y cyfranogwyr yn defnyddio'r llyfrgell amlaf er mwyn:<br>• Benthyg llyfrau;<br>• Gwaith cyfeirnodi;<br>• Gweithgareddau grŵp;<br>• Hysbysfwrdd gyda manylion grwpiau a digwyddiadau lleol. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 4: Beth ydych yn ei werthfawrogi fwyaf am eich llyfrgell?** | |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | **Yr elfen gymdeithasol**: Y gallu i gymdeithasu â phobl eraill drwy fynd i'r grŵp darllen a theimlo fel rhan o'r gymuned.<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Staff cyfeillgar y llyfrgell, sy'n barod i helpu ac yn llawn gwybodaeth. Dywedodd un o'r cyfranogwyr ei bod am fenthyg llyfrau gan awdur penodol a daeth staff y llyfrgell o hyd i holl lyfrau'r awdur iddi. Mae'r staff yn barod i fynd gam ymhellach er mwyn helpu.<br><br>**Hygyrchedd**: Y gwasanaethau sy'n rhad ac am ddim.<br><br>**Y llyfrau**: Y ffaith y gallant fenthyg llyfrau am ddim am fis ar y tro. Mae'n well gan y grŵp wneud hynny na phrynu llyfrau a allai fod yn gostus a mynd â gormod o le.<br><br>**Parcio**: Mae llawer o le ar gael i barcio, ac mae hynny'n ei gwneud llawer yn haws mynd i'r llyfrgell. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Lleoliad cymunedol i gynnal cyfarfodydd a'r ffaith bod cyfleusterau TG ar gael:** Cael lleoliad i'r grŵp gyfarfod, a gallu defnyddio'r cyfrifiaduron yno. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Cyd-fenthyca rhwng llyfrgelloedd**: Roedd y grŵp wir yn gwerthfawrogi'r cynllun cyd-fenthyca rhwng llyfrgelloedd a reolir gan ranbarth canolbarth a gorllewin Cymru CyMAL. Roedd hyn yn golygu y gallai aelodau gael gafael ar destunau amgen a gedwir mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd eraill (gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth). Mae cynlluniau tebyg ar gael ledled Cymru (Linc y Gogledd yng ngogledd Cymru a 'Books for You' yn y de). Mae hyn wedi galluogi darllenwyr i gael gafael ar werslyfrau academaidd a pharhau i ddysgu y tu allan i safle'r Brifysgol. Dywedodd un o'r cyfranogwyr i'r cynllun fod yn llwyddiannus ym Mhowys a bod nifer y darllenwyr yno yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>**Hygyrchedd**: Oherwydd lleoliad y llyfrgell ar y Stryd Fawr yn Llanfair-ym-Muallt, roedd y cyfranogwyr wir yn gwerthfawrogi pa mor gyfleus a hygyrch y mae'r llyfrgell. Mae adran gwasanaethau cwsmeriaid Cyngor Powys wedi symud i'r llyfrgell yn ddiweddar, gan wella apêl y llyfrgell ymhellach. Yn ogystal â gwasanaethau llyfrgell, mae hynny'n golygu bod y staff hefyd yn darparu gwasanaethau o ran rhent, y dreth gyngor, ceisiadau am fathodynnau glas, bagiau sbwriel a gwybodaeth i dwristiaid. Fel y nododd un o'r cyfranogwyr: "*Mae'n fwy na llyfrgell erbyn hyn... mae'n ganolfan i'r gymuned*". Mae'r llyfrgell yn "*werthfawr i'r gymuned yn gyffredinol*", gan gynnig gwybodaeth leol am deithiau cerdded, amserlenni bws a digwyddiadau yn y gymuned.<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r staff a'u proffesiynoldeb a'u gallu i argymell llyfrau a rhoi cyngor. Maent yn broffesiynol hefyd o safbwynt y llyfrau a ddewisir a throsiant llyfrau. Yn achos gwaith ffuglen, "*os na fydd llyfr wedi cael ei fenthyg ers dros chwe mis, byddwn yn ei gyfnewid â llyfrgell arall*". Teimlwyd y byddai defnyddio gwirfoddolwyr yn lleihau'r arbenigedd hwn - mae'r staff yn gwybod beth y mae'r darllenwyr yn ei hoffi, a gwerthfawrogir hynny'n fawr.<br><br>**Yr elfen gymdeithasol**: Canolbwyntiodd un o'r cyfranogwyr ar natur wledig yr ardal. Gan ei bod yn gweithio gartref, roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle a roddwyd iddi (drwy'r grwpiau amrywiol sy'n cyfarfod yn y llyfrgell) i gwrdd â phobl newydd ac felly osgoi'r teimlad o fod |

| | |
|---|---|
| | wedi'i hallgáu. |

| | |
|---|---|
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | **Yr adeilad**: fel lle i ddarllen ac astudio; hefyd man cymdeithasol i gwrdd â ffrindiau a threulio amser â hwy;<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn canmol y staff cyfeillgar sy'n barod i helpu.<br><br>**Mynediad at adnoddau**: Mynediad at adnoddau iaith - geiriaduron, thesawrysau a llyfrau gramadeg. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | "*Mae'r llyfrgell yn werth y byd imi, wn i ddim beth wnawn i hebddi.*"<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi proffesiynoldeb y staff a'u parodrwydd i helpu: "*mae'r staff yn mynd allan o'u ffordd i'ch helpu. Mae'r gwasanaeth heb ei ail ac mae'n sicr na fyddech yn cael cystal wasanaeth pe baech yn prynu llyfr mewn siop.*" Oherwydd bod y staff yn ymwybodol o'r hyn y byddwch yn tueddu i'w fenthyg ac yn dod i adnabod benthycwyr yn bersonol, gallant argymell llyfrau a'u harchebu: "*gan fod y staff yn eich adnabod, rydych yn cael croeso mwy cynnes [yn y llyfrgell] ac maent yn datblygu cysylltiad a pherthynas bersonol â chi... mae hynny'n ychwanegu at eich profiad yno.*"<br><br>**Yr elfen gymdeithasol**: Roedd y cyfranogwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r elfen gymdeithasol sydd ynghlwm wrth y llyfrgell. Roedd y croeso, y cyfle i ryngweithio a'r gwerth addysgol yn ganolog i'r mwynhad roeddent yn ei gael o'r llyfrgell. Roedd yr holl gyfranogwyr yn gwerthfawrogi dysgu gydol oes a, thrwy ymuno â'r grwpiau sy'n cyfarfod yn y llyfrgell, maent yn gallu "*ymarfer yr ymennydd*" a gwella gobeithion ac iechyd yr aelodau, yn enwedig os ydynt yn byw ar eu pen eu hunain.<br><br>**Gweithgareddau i blant**: Gall plant ysgol ifanc fynd i'r llyfrgell yn ystod oriau ysgol hefyd, |

| | |
|---|---|
| | sy'n annog pobl i ddod yn gyfarwydd â'r llyfrgell o oedran ifanc. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Yr elfen gymdeithasol**: Roeddent yn pwysleisio bod y llyfrgell yn rhan fawr o'r gymuned yn Rhosneigr. Petai'r llyfrgell yn cau, nid oeddent yn gwybod lle y byddai pobl yn mynd i gymdeithasu, ac mae cymdeithasu yn rhywbeth y maent yn ei werthfawrogi eu hunain wrth fynd i'r llyfrgell.<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Mae'r staff yn hynod o gyfeillgar ac mae'r adeilad yn braf ac yn groesawgar. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Proffesiynoldeb staff**: Roedd y grŵp yn teimlo bod y staff i gyd yn gyfeillgar iawn, yn barod i helpu gyda cheisiadau ac yn wybodus iawn ynghylch eu pynciau. Yn hytrach na dweud wrthych ble i ddod o hyd i'r llyfrau a oedd o ddiddordeb ichi, roeddent yn eich tywys yno.<br><br>**Y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gyffredinol:** Roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo bod Cymru yn arbennig o ffodus nad oedd wedi dioddef yr un lefel o doriadau i wasanaethau llyfrgelloedd â Lloegr ac y dylid gwerthfawrogi a diogelu gwasanaethau llyfrgelloedd. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Yr elfen gymdeithasol**: Roedd llawer yn byw mewn cymunedau gwledig ac felly'n teimlo bod y llyfrgell yn dod â phobl ynghyd ac yn rhoi cyfle iddynt gwrdd ag amrywiaeth o bobl na fyddent yn cwrdd â hwy fel arall o bosibl. Y llyfrgell yw canolbwynt y dref.<br><br>**Proffesiynoldeb staff**: Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod staff y llyfrgell yn hyfryd ac yn |

| | |
|---|---|
| | barod i helpu<br><br>**Mynediad at adnoddau a chyd-fenthyca rhwng llyfrgelloedd**: Roedd un o'r cyfranogwyr wedi gorffen gradd yn ddiweddar a dywedodd fod pobl eraill yn genfigennus o'r adnoddau yr oedd wedi'u defnyddio yn Llyfrgell Rhuthun. Os na fydd llyfr ar gael yn Llyfrgell Rhuthun, bydd y staff yn cysylltu â llyfrgelloedd eraill er mwyn dod o hyd i'r llyfr (yng Nghymru a thu hwnt). Gall benthycwyr fenthyg llyfrau Cymraeg i blant hefyd (hyd yn oed os nad yw'r rhieni'n siarad Cymraeg). Roedd y grŵp yn teimlo na fyddent yn gallu fforddio prynu'r holl lyfrau yr oeddent yn eu benthyg.<br><br>**Oriau agor**: Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi oriau agor y llyfrgell. Mae ar agor yn hwyr ar ddydd Mawrth ac ar fore Sadwrn, ac mae hynny'n gyfleus i weithwyr amser llawn.<br><br>**Arddangosfeydd**: Mae'r llyfrgell yn arddangos gwaith gan bobl leol yn y cyntedd sy'n gyhoeddusrwydd da ac yn creu mwy o ddiddordeb yn eu gwaith.<br><br>**Yr Adeilad**: Roedd y grŵp yn teimlo bod y llyfrgell yn le cynhwysol i bawb. |
| **Cwestiwn 5: Sut y gallai gwasanaethau llyfrgell yn eich ardal chi fod yn well?** | |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | **Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Roedd pawb yn y grŵp yn cytuno nad oedd unrhyw beth o'i le â'r gwasanaethau a gynigwyd ac nid oedd angen gwella unrhyw wasanaethau yn eu barn hwy. Y broblem, yn eu barn hwy, oedd y ffordd y câi'r gwasanaethau a oedd ar gael eu hysbysebu. Roeddent yn teimlo mai prin iawn y câi gwasanaethau eu hysbysebu a'u hyrwyddo. Awgrymwyd y dylai'r llyfrgell gael sgriniau gwybodaeth yn ffenestr y cyntedd, fel y gall pobl sy'n cerdded heibio weld pa wasanaethau sydd ar gael iddynt a pha ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar y gweill yn yr ardal. Dylid hefyd wella prosesau hyrwyddo ar-lein.<br><br>**Hysbysebu gwasanaethau'r Cyngor yn well**: Mae cymaint o wasanaethau ar gael yn y llyfrgell, fel y biniau ailgylchu, amserlenni bws, gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau lleol, prynu gyriant fflach, gostyngiad ar gerdyn rheilffordd i bobl hŷn, arddangosfeydd, cardiau llyfrgell i westeion a phaned o goffi, sydd yno i bawb yn y gymuned. Ond, oni bai eu bod yn mynd i'r llyfrgell neu grŵp darllen neu grwpiau eraill, ni fydd pobl yn gwybod amdanynt. Oni bai bod rhywun arall yn dweud wrthynt amdanynt, ni fydd pobl yn gwybod amdanynt.<br><br>**Rhagor o wybodaeth leol**: Awgrymwyd y dylai'r llyfrgell arddangos posteri yn yr adeilad ond hefyd mewn mannau fel yr archfarchnad leol, meddygfeydd, fferyllfeydd, swyddfeydd post, siopau bach, cartrefi nyrsio a chartrefi gofal.<br><br>**Cerdyn llyfrgell hyblyg**: Dywedodd un o'r cyfranogwyr, os oedd un peth y gellid ei wella yna hyblygrwydd ei gerdyn llyfrgell oedd hwnnw, fel y gellid ei ddefnyddio mewn siroedd gwahanol yng ngogledd Cymru. Mae'n ymweld â llyfrgelloedd yn Sir Conwy ond mae'n byw ar y ffin â Sir Ddinbych, ond nid yw'n gallu defnyddio ei gerdyn i fenthyg llyfrau o lyfrgelloedd Sir Conwy. |

| | |
|---|---|
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Roedd aelodau'r grŵp yn pwysleisio nad oeddent yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y llyfrgell hyd nes iddynt benderfynu mynd i Babis Bach Blaenau ar ddydd Llun, a hynny ar ôl iddynt fod yn siarad gyda'i gilydd.<br><br>**Rhagor o weithgareddau i blant**: Awgrymwyd efallai y byddai grŵp celf a chrefft yn ddefnyddiol yn y llyfrgell i blant ar ôl ysgol.<br><br>**Rhagor o gyfrifiaduron**: Awgrymwyd hefyd bod angen rhagor o gyfrifiaduron yn y llyfrgell. Dim ond pump neu chwech sydd ar gael i'w defnyddio ac mae pobl yn gallu eu defnyddio am gyfnod o hanner awr ar y tro. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo y gellid gwella gwasanaethau llyfrgelloedd yn yr ardal drwy ad-drefnu'r oriau agor i'w gwneud yn haws i aelodau sy'n gweithio yn ystod y dydd ddefnyddio'r gwasanaeth ar ôl gwaith. Yn aml, dim ond un aelod o staff sy'n gweithio yn Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt, ac mae'n rhaid cau'r llyfrgell dros yr awr ginio. Gall hynny wneud pethau'n anodd i'r aelodau sydd am ddefnyddio'r llyfrgell yn ystod eu hawr ginio.<br><br>**Treulio llai o amser ar wasanaethau'r cyngor**: Dywedodd un o'r cyfranogwyr y dylid sicrhau bod "*staff yn gallu treulio mwy o amser yn gwneud gwaith y llyfrgell, yn hytrach na'u bod yn treulio amser ar dasgau'r awdurdod lleol.*" Er bod yr adran gwasanaethau cwsmeriaid wedi creu mwy o gyfleoedd i'r gymuned ymgysylltu â'r llyfrgell, "*ers trosglwyddo'r dyletswyddau hyn i staff y llyfrgell, weithiau mae'n rhaid aros*" i siarad â'r llyfrgellydd. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | **Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Dylid darparu rhagor o wybodaeth ar-lein ynghylch adnewyddu benthyciadau, aelodaeth ac ati.<br><br>**Rhagor o wasanaethau am ddim**: Awgrymodd un o'r cyfranogwyr y byddai'n dda pe bai modd i fenthyg cryno ddisgiau a DVDs am ddim.<br><br>**Rhagor o weithgareddau**: Sefydlu clybiau llyfrau mewn ieithoedd eraill i helpu siaradwyr |

| | |
|---|---|
| | Saesneg i ddatblygu eu sgiliau ieithoedd modern. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oedd llawer i'w wella o ran gwasanaeth y llyfrgell.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Roedd un cyfranogwr o'r farn y byddai'n dda pe bai Llyfrgell Clydach ar agor yn hirach o leiaf unwaith yr wythnos i'w gwneud yn haws i bobl a oedd yn gweithio yn ystod y dydd ddefnyddio'r llyfrgell.<br><br>**Rhagor o gyfrifiaduron**: Roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo y byddai'n dda cael rhagor o gyfrifiaduron gan fod y gwasanaeth yn boblogaidd iawn. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Cynyddu’r cyfnodau benthyg**: Roedd un aelod yn hoffi mynd â llawer o lyfrau adref gyda hi unwaith y mis, ond yn teimlo gan ei bod yn mynd yn hŷn nad oedd yn gallu darllen mor gyflym ag yr oedd yn arfer ei wneud.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Roedd y grŵp yn gwerthfawrogi bod hyn yn costio arian. Byddai’n well ganddynt weld yr oriau agor yn aros fel ag y maent a bod y llyfrgell yn dal ar gael iddynt na bod yr arian yn cael ei wario ar gadw’r llyfrgell ar agor yn hirach ac yna ei fod yn gorfod cau yn gyfan gwbl.<br><br>Roedd y llyfrgell o dan fygythiad o gau ryw dair neu bedair blynedd yn ôl, felly mae’r gymuned a chyfeillion y llyfrgell wedi gweithio yn agos gyda’i gilydd yn y gorffennol i geisio darparu mwy o wasanaethau er mwyn cadw’r llyfrgell rhag cau, e.e. gwasanaeth gwybodaeth i dwristiaid - mae nifer fawr o dwristiaid yn dod i ardal Rhosneigr dros yr haf. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Amrywiaeth ehangach o lenyddiaeth**: Gallai'r llyfrgell gynnig rhagor o lyfrau mwy diweddar;<br><br>**Gwella'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn gyffredinol:** Roedd y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi gwaethygu rhywfaint ers i'r cyfrifoldeb amdano symud o'r adran Addysg i'r adran Hamdden gyda'r Cyngor. Mae hyn wedi effeithio ar argaeledd llyfrau cyfeirio yn y llyfrgell.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Gellid gwella oriau agor y llyfrgell i'w gwneud yn haws i unigolion sy'n gweithio ddefnyddio'r llyfrgell, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu cau'r llyfrgell am fore ac agor yn hwyrach.<br><br>**Defnyddio mwy o lyfrgelloedd teithiol**: Gellid defnyddio llyfrgelloedd teithiol mewn ardal fel Casnewydd, lle y mae nifer fawr o gartrefi gofal.<br><br>**Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Gwella presenoldeb ar y rhyngrwyd drwy wefan y llyfrgell (yn hytrach na'r Cyngor) a blogiau - soniodd un o'r cyfranogwyr am flog gan Glwb darllen arall yn Llanfair-ym-Muallt.<br><br>**Gadael i bobl adnewyddu eu llyfrau dros y ffôn unwaith eto**: Yn ddiweddar, mae'r llyfrgell wedi atal pobl rhag adnewyddu eu llyfrau dros y ffôn - gan olygu mai dim ond wyneb yn wyneb neu ar-lein y gellir ei wneud. Nid oes gan lawer o ddefnyddwyr y llyfrgell fynediad at gyfrifiadur/y rhyngrwyd adref, ac felly teimlwyd y dylid parhau i adael i bobl adnewyddu eu llyfrau dros y ffôn. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai ehangu'r oriau agor ar y penwythnos a chael noson hwyr ychwanegol ddenu rhagor o deuluoedd.<br><br>**Presenoldeb ar-lein**: Safle chwilio ar y rhyngrwyd fel y gallwch chwilio am lyfrau gartref. |

| Cwestiwn 6: Yn eich barn chi sut y gallai'r cyngor arbed arian a pharhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgell? | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | **Defnyddio safleoedd ysgol**: Dywedodd un o'r cyfranogwyr nad yw llyfrgelloedd yn cael eu defnyddio rhyw lawer: "*beth am eu rhannu â'r gymuned, mae'r ysgol yn wag o 4pm ymlaen.*"<br><br>**Rhannu adnoddau a gwaith partneriaeth**: Mae canolfan gymunedol drws nesaf, pam cynnal grwpiau a gweithgareddau yno ac yn y llyfrgell os gellir defnyddio un cyfleuster i bawb.<br><br>**Creu refeniw**: Awgrymwyd y byddai cael siop ac ystafell goffi yn y llyfrgell yn ffordd y gallai'r llyfrgell godi arian ac yna ni fyddai'n rhaid iddi ddibynnu cymaint ar arian gan awdurdodau lleol. Gwnaethant ddweud bod siop ac ystafell goffi yn Llyfrgell y Rhyl. Roeddent yn teimlo efallai y byddai cael y gwasanaethau hyn yn annog rhagor o bobl i gael cipolwg ar y llyfrgell. Gallai'r llyfrgell hefyd werthu llyfrau nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.<br><br>**Cyfrannu llyfrau**: Gofyn i bobl gyfrannu llyfrau.<br><br>**Prynu stoc ratach**: Mae staff y llyfrgell yn dweud bod yn rhaid iddynt dalu'r pris llawn am lyfrau, ond beth am ddefnyddio Amazon ac eBay? |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Defnyddio gwirfoddolwyr:** Awgrymwyd efallai y byddai'n syniad cael gwirfoddolwyr i redeg y llyfrgell. Ond y farn gyffredinol oedd nad oedd llawer o wirfoddolwyr yn yr ardal a theimlwyd hefyd na fyddai pobl yn barod i wirfoddoli pe bai angen iddynt wneud hynny. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Creu refeniw**: Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar sut y gallai cynghorau arbed arian, gallent ystyried ffyrdd y gallai llyfrgelloedd greu arian. Gellir gwneud hyn drwy:<br><br>• Gwerthu hen stoc (dim ond mewn llyfrgelloedd canolog y caiff hen stoc ei gwerthu ar hyn o bryd e.e. Aberhonddu, Llandrindod, y Drenewydd ac ati);<br><br>• Llogi mannau gwag i grwpiau (DS: nid oes mannau gwag yn llyfrgell Llanfair-ym-Muallt y |

| | |
|---|---|
| | gellid eu cadw i'w llogi gan grwpiau. Fodd bynnag, gallai'r grŵp ystyried ffyrdd o wneud hyn mewn llyfrgelloedd eraill);<br><br>Awgrymwyd y gellid gwerthu celf a chrefft a chael peiriant diodydd poeth hefyd.<br><br>**Codi tâl am wasanaethau ychwanegol**: Ychwanegodd rhai aelodau o'r grŵp y byddent yn fodlon talu mwy am wasanaethau ychwanegol (fel llogi DVDs/defnyddio Wi-Fi, er enghraifft) yn hytrach na chodi ffi am fenthyg llyfrau. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Amherthnasol |
| *Grŵp Gwau Clydach* | **Creu refeniw**: Nid oedd y grŵp yn gwrthwynebu'r syniad o greu refeniw drwy gynnal boreau coffi neu gael siop goffi fel ffordd fwy cynaliadwy o ddiogelu arian y llyfrgell.<br><br>**Defnyddio gwirfoddolwyr**: Er bod y grŵp yn gwrthwynebu'r syniad o ddefnyddio gwirfoddolwyr oherwydd eu diffyg arbenigedd, gwnaethant ddweud y gellid defnyddio gwirfoddolwyr yn y siop goffi. Fel arall, gellid cyflogi gwirfoddolwyr ar yr amod eu bod o dan oruchwyliaeth aelod parhaol a chymwys o staff. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Codi tâl am wasanaethau ychwanegol**: Talu i ddefnyddio'r cyfrifiaduron am gyfnod - ond dim llawer; talu i ddefnyddio llyfrau llafar.<br><br>**Creu refeniw**: Gwerthu hen lyfrau a DVDs. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Cau'r llyfrgell am fore/prynhawn bob wythnos. Ni fyddai hyn yn effeithio ar bobl sy'n gweithio yn ystod y dydd. Yn syml, byddai'n rhaid i ddefnyddwyr y llyfrgell sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r diwrnodau/amseroedd agor cyn mynd yno.<br><br>**Prynu llai o DVDs/cryno ddisgiau**: Prynu llai o DVDs/cryno ddisgiau y gall pobl eu benthyg o'r llyfrgell.<br><br>**Defnyddio gwirfoddolwyr**: Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio gwirfoddolwyr (yn hytrach |

| | |
|---|---|
| | nag aelodau parhaol o staff). Teimlwyd yn gyffredinol bod staff cyflogedig o fudd mawr i'r llyfrgell. Roedd un o'r cyfranogwyr yn gwrthwynebu defnyddio gwirfoddolwyr o ran egwyddor. Roedd y cyfranogwyr eraill yn nodi, pe bai angen defnyddio gwirfoddolwyr, y dylent fod o dan arweiniad aelod parhaol o staff. Gellid gwneud hyn er mwyn arbed arian mewn llyfrgelloedd cangen llai o faint ledled Casnewydd. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Dylai'r cyngor arbed arian drwy wneud toriadau mewn mannau eraill**: Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylai'r Awdurdod Lleol ystyried costau gweinyddu ehangach yn ardal yr Awdurdod Lleol ac mewn meysydd eraill yn gyntaf.<br><br>**Defnyddio gwirfoddolwyr**: Gallai'r llyfrgell ystyried defnyddio gwirfoddolwyr i leihau rhywfaint ar gostau staff cyflogedig, ond gwnaethant bwysleisio ei bod yn hanfodol cael arbenigedd y llyfrgellydd yno. Mae'r Ganolfan Groeso leol wedi dechrau defnyddio gwirfoddolwyr yn ddiweddar a nododd nifer o aelodau'r grŵp ei bod ar gau yn aml oherwydd diffyg gwirfoddolwyr, felly nid oeddent yn sicr pa mor ddibynadwy y byddai'r adnodd hwnnw yn y llyfrgell.<br><br>**Codi tâl am wasanaethau ychwanegol**: Awgrymodd rhai y dylai grwpiau tebyg i'r grŵp darllen dalu ffi fechan tuag at, er enghraifft, y costau gwresogi am y cyfnod y maent yn defnyddio'r ystafell yn y llyfrgell, ond gwnaethant nodi na ddylai hynny eithrio unrhyw un rhag dod i'r grwpiau ac ni ddylid codi tâl am weithgareddau plant. Roeddent y teimlo y byddai'n well gan bobl dalu na cholli'r grŵp, ac awgrymodd rhai y byddai talu ffi yn gwneud i bobl werthfawrogi'r gwasanaeth yn fwy.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Trafodwyd lleihau oriau agor y llyfrgell, ond roedd y grŵp yn teimlo mai dim ond os mai'r dewis arall oedd cau'r llyfrgell y dylid ystyried gwneud hynny. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 7: A ydych wedi gweld unrhyw ffyrdd newydd a diddorol o ddarparu gwasanaethau llyfrgell y dylid eu defnyddio'n amlach?** | |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | **Rhannu gwybodaeth**: Dylai llyfrgelloedd a chynghorau lleol rannu syniadau ac arfer gorau gyda'i gilydd. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | Amherthnasol |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Y Llyfrgell fel pwynt gwybodaeth**: Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y gymuned yn defnyddio'r llyfrgell llawer yn fwy ers trosglwyddo'r adran gwasanaethau cwsmeriaid yno. Mae defnyddio'r llyfrgell fel pwynt gwybodaeth i'r cyngor lleol yn ffordd wych o hyrwyddo'r llyfrgell fel adnodd.<br><br>**Gwaith partneriaeth traws-sector**: Cyfeiriodd un o'r cyfranogwyr at waith partneriaeth traws-sector fel ffordd ddifyr o ddarparu gwasanaethau llyfrgell, y dylid talu amdani'n genedlaethol yn hytrach na fesul rhanbarth. "*Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu drwy CyMAL y strategaeth Llyfrgelloedd am Oes sy'n canolbwyntio ar hyfforddi staff mewn sectorau gwahanol. Dylid defnyddio'r math hwn o waith partneriaeth a hyfforddiant staff yn fwy yn y dyfodol i leihau'r baich ar un sector penodol.*" |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | **Benthyg gliniaduron**: Gadael i ddefnyddwyr fenthyg gliniaduron (i'w defnyddio yn y llyfrgelloedd ac oddi ar y safle am ychydig oriau). Mae'r syniad yn debyg i wasanaeth sydd ar gael yn Sbaen. |

| | |
|---|---|
| | Roedd y grŵp yn teimlo'n gyffredinol bod llyfrgelloedd yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol iawn â llyfrgelloedd yng ngwledydd eraill yr UE. Gwnaethant nodi bod yr agweddau canlynol yn arbennig o dda o gymharu â'r drefn yn eu gwledydd hwy:<br>• Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn haws i'w defnyddio;<br>• Mae mwy o stoc ar gael i ddewis ohoni;<br>• Mae mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael i ddefnyddwyr y llyfrgell.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn canmol Llyfrgell Ganolog Caerdydd yn enwedig. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | **Rhagor o weithgareddau**: Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y gweithgareddau amrywiol a gynhelir yn y llyfrgell yn ffordd ddifyr o ddarparu gwasanaethau llyfrgell y dylid eu defnyddio yn fwy. Mae rhywbeth wedi'i drefnu yn yr ystafelloedd sydd ar gael i'w llogi bob dydd. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Defnyddio cyfrifiaduron tabled**: Y farn oedd ei bod yn bwysig cadw golwg ar y datblygiadau diweddaraf a chroesawu technoleg newydd. Bydd gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn yn cyflwyno iPads yn llyfrgell Rhosneigr yn yr wythnosau nesaf. Er mwyn ariannu hyn maent wedi rhoi'r gorau i ddarparu copïau papur o gylchgronau yn y llyfrgell, a bydd y rhain yn dal ar gael ar yr iPads.<br><br>**Gwasanaeth Amazon**: Roedd arweinydd y grŵp wedi clywed am wasanaeth newydd a oedd yn cael ei gynnig mewn llyfrgell yng Nghernyw. Gwasanaeth Amazon - os bydd unigolyn am brynu llyfr oddi ar Amazon ond nad oes ganddo gysylltiad â'r rhyngrwyd, gall y llyfrgell brynu'r llyfr ar ei ran. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | Amherthnasol |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Siopau coffi mewn llyfrgelloedd**: Mae siopau coffi yn Llyfrgell Lerpwl a Llyfrgell y Rhyl, a gellid ymchwilio i'r posibilrwydd o drefnu hyn ar sail wirfoddol neu mewn ffordd na fyddai'n golygu unrhyw gost i'r llyfrgell.<br><br>**Technoleg sgrin gyffwrdd**: Roedd un o'r cyfranogwyr wedi bod i lyfrgell lle yr oedd bwrdd mawr â sgrin gyffwrdd lle gellid edrych ar wybodaeth. |
| **Cwestiwn 8: Beth y byddech yn ei golli fwyaf pe bai eich gwasanaethau llyfrgell lleol yn dod i ben?** | |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | Roedd y grŵp yn teimlo y byddent yn gweld eisiau llawer o bethau pe bai gwasanaethau'r llyfrgell yn dod i ben:<br>• **Y staff;**<br>• **Gwasanaethau llyfrau;**<br>• **Cymdeithasu;**<br>• **Gwybod beth sy'n digwydd yn y gymuned leol**.<br><br>Dywedodd un cyfranogwr "*buaswn yn gweld eisiau popeth.*" |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Yr elfen gymdeithasol**: Roedd y grŵp Babis Bach Blaenau a'r grŵp Stori ar ddydd Gwener yn teimlo na fyddai mamau yn yr ardal yn cael y cyfle i gymdeithasu heb y grwpiau.<br><br>**Mynediad at adnoddau**: Roedd y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron o gymorth i'w plant wrth iddynt wneud eu gwaith cartref gan na allant fforddio prynu argraffydd gartref. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Yr elfen gymdeithasol**: Yn ystod y sesiwn, tynnodd y cyfranogwyr sylw at faint o bobl a fyddai'n cael eu hynysu heb wasanaeth y llyfrgell leol, a faint ohonynt a fyddai'n methu â chael gwybodaeth am y gymuned yn ogystal â gwybodaeth angenrheidiol am y cyngor lleol. Roedd tri o'r cyfranogwyr yn gymharol newydd i'r ardal, a gwnaethant ddweud mai'r llyfrgell oedd y lle cyntaf yr aethant ar ôl symud yno. Dywedodd un cyfranogwr "*...mae'r llyfrgell leol yn fwy na man cadw llyfrau; mae'n lle diogel y gallaf fynd yno a chael croeso bob amser gan staff cyfeillgar, cymwynasgar a phroffesiynol. Byddai colli'r adeilad yn golled i'r stryd fawr ond byddai colli'r amgylchedd hwnnw hyd yn oed yn waeth.*"<br><br>Roeddent yn teimlo mai Cymru oedd â'r gwasanaethau gorau yn y DU o ran llyfrgelloedd cyhoeddus, ac roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo bod gwasanaethau llyfrgell eisoes wedi |

| | |
|---|---|
| | wynebu toriadau. Dywedodd un o'r cyfranogwyr y byddai toriadau pellach i wasanaethau llyfrgell yn gwneud fawr ddim i helpu'r lefelau llythrennedd gwael (sy'n gwaethygu) yng Nghymru. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | **Mynediad at adnoddau**: Byddai'r grŵp yn gweld eisiau'r llyfrau a'r adnoddau sydd ar gael iddo. Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod angen yr adnoddau arnynt er mwyn gwella eu Saesneg.<br><br>Roeddent yn teimlo'n unfryd y byddent yn gweld eisiau'r Clwb Sgwrsio gan nad oes unrhyw glwb tebyg ar gael yn y ddinas. |
| *Grŵp Gwau Clydach* | **Yr elfen gymdeithasol**: Fel y nodwyd yn flaenorol, tynnodd llawer o aelodau'r grŵp sylw at y buddion meddyliol a chorfforol a ddaw yn sgîl mynd i'r llyfrgell, fel ffordd i'r genhedlaeth hŷn barhau i ryngweithio a chymdeithasu: "*Mae dod i le mor gyfeillgar yn trechu'r hwyliau isel*". Byddai'n anodd i lawer o'r grŵp ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell y tu allan i Glydach oherwydd eu cyflyrau corfforol.<br><br>Soniodd un o'r cyfranogwyr am ymrwymiad y cyngor lleol i neilltuo gwasanaethau sy'n helpu i ddiogelu pobl yn y gymuned sy'n agored i niwed rhag y toriadau ariannol. Dywedodd fod llyfrgelloedd yn bwysig o safbwynt cymdeithasol ac addysgol a'u bod yn diwallu anghenion y gymuned. Mae'r llyfrgell (fel y nodir uchod) yn gofalu am iechyd a lles meddyliol y gymuned ac yn annog pobl hŷn i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn siomedig bod y llyfrgell ar gau dros y Nadolig. Gan fod llawer o'r grŵp yn dibynnu ar y llyfrgell fel lle i ryngweithio â phobl eraill, roedd nifer ohonynt yn teimlo wedi'u hynysu. "*Mae'r llyfrgell yn lle diogel i lawer o bobl... pe bai fy mam yn cael trafferthion, rwy'n gwybod y byddai staff y llyfrgell yn fy ffonio.*" Dim ond ffordd o arbed arian yn y tymor byr yw cau'r llyfrgell ar rai diwrnodau neu leihau'r |

| | |
|---|---|
| | oriau agor. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Yr elfen gymdeithasol a mynediad at adnoddau**: Y cyfle i gymdeithasu, y cyfle i fenthyg llyfrau am ddim. Un o'r ychydig leoedd y gallant fynd yno am ddim a defnyddio gwasanaethau am ddim. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Yr elfen gymdeithasol**: Dywedodd y ddau gyfranogwr y byddent yn gweld eisiau'r elfen gymdeithasol pe bai eu gwasanaethau llyfrgell leol yn dod i ben. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Y gwasanaeth llyfrgelloedd yn gyffredinol:** Roedd y grŵp yn cytuno'n unfryd y byddai'n gweld eisiau pob un o wasanaethau'r llyfrgell. |
| **Cwestiwn 9: Sut y byddai modd annog rhagor o bobl i ddefnyddio eu llyfrgelloedd yn eich barn chi?** | |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | **Gwella prosesau hysbysebu**: Mae angen sicrhau bod pobl yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r llyfrgell yn fwy. Posteri mewn archfarchnadoedd, siopau lleol, fferyllfeydd, meddygfeydd. Roedd y grŵp yn teimlo efallai y byddai arddangos 'deg uchaf' llyfrau'r wythnos yn y ffenestr yn annog pobl i ddod i mewn. Hysbysebu'r gwasanaeth dosbarthu i'r cartref mewn meddygfeydd a chartrefi gofal a hysbysebu mewn papurau newydd lleol - mae'r Rhyl Journal yn cynnwys pob math o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardal honno. Dosbarthu taflenni i dai pobl gyda gwybodaeth am y gwasanaethau. Unwaith y mis o bosibl, fel cylchlythyr neu lyfryn.<br><br>**Annog mwy o blant i fynd i'r llyfrgell**: Roedd y grŵp yn teimlo y dylai defnyddio'r llyfrgell fod yn rhan o fywyd plentyn o'r cyfnod cyn ysgol. Roedd y grŵp yn teimlo y dylai'r llyfrgell weithio |

| | |
|---|---|
| | gydag ysgolion yn fwy er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael.<br><br>**Boreau coffi**: Denu rhieni i mewn gyda choffi, grwpiau sgwrsio, yna byddai hyn yn eu hannog i edrych ar lyfrau a defnyddio rhai o'r gwasanaethau sydd ar gael.<br><br>**Gwella adeilad y llyfrgell**: Roedd y grŵp yn teimlo nad oedd adeilad y llyfrgell yn groesawgar iawn o'r tu allan ac efallai fod hynny'n rheswm pam nad oedd pobl yn dod i mewn.<br><br>**Presenoldeb ar-lein**: Dylai'r llyfrgell gael ei gwefan ei hun i ddweud beth sy'n digwydd yn y llyfrgell a pha wasanaethau sydd ar gael - nid oes ganddi wefan ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth am Lyfrgell Abergele ar wefan y sir ar hyn o bryd, ac nid yw'n cael ei diweddaru. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Gwella prosesau hysbysebu**: Roedd y grŵp yn teimlo nad oedd y gwasanaethau sydd eisoes ar gael yn y llyfrgell yn cael eu hysbysebu'n ddigon da - nid oedd rhai o aelodau'r grŵp yn ymwybodol o grŵp Babis Bach Blaenau tan i rywun ddweud wrthynt amdano yn y siop leol.<br><br>**Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Cytunwyd bod angen parhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgell, ond teimlwyd mai'r broblem fawr oedd y ffaith nad oedd y gwasanaethau a'r grwpiau sydd ar gael yno'n cael eu hysbysebu digon yn y pentref.<br><br>**Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell**: Nid oeddent am leihau'r oriau agor - os rhywbeth, teimlwyd y dylai'r llyfrgell fod ar agor ar adegau mwy priodol. Mae'r llyfrgell ar gau dros amser cinio bob dydd. Teimlwyd y byddai cadw'r llyfrgell ar agor dros amser cinio yn ei gwneud yn fwy cyfleus i unigolion sydd am ddefnyddio'r llyfrgell yn ystod yr awr ginio o'r gwaith, gan na fyddent yn gallu defnyddio'r llyfrgell cyn y gwaith nac ar ôl gwaith gan ei fod ar agor rhwng 10.00 a 17.00.<br><br>**Presenoldeb gwell ar-lein**: Awgrymwyd y byddai'n dda cael tudalen Facebook a chyfrif twitter i'r llyfrgell, i gynnig mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y llyfrgell.<br><br>Ond, roedd rhai aelodau o'r grŵp yn ceisio gweld ochr arall y ddadl - awgrymwyd nad oes |

| | |
|---|---|
| | llawer o ddiddordeb mewn grwpiau o'r fath. Os nad yw pobl yn holi am y grwpiau yn y lle cyntaf, a fyddent am fynychu? Roedd rhai o'r mamau sy'n mynychu'r grŵp babis wedi cael gwahoddiad i fynd yno. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | **Gwella prosesau hysbysebu**: Cytunodd y grŵp fod angen hyrwyddo gwasanaethau y tu allan i'r llyfrgell.<br><br>**Annog mwy o blant i fynd i'r llyfrgell**: Er bod y llyfrgell yn cael ei defnyddio gan ddiwylliannau neu genedlaethau penodol weithiau, gellid gwneud mwy i annog y genhedlaeth iau i ymgyfarwyddo â defnyddio'r llyfrgell a'r safle. Mae plant ym Mhowys yn cael gwahoddiad i ymuno â'r llyfrgell gan Ymwelwyr Iechyd.<br><br>**Defnyddio llyfrgellwyr academaidd**: Mae llyfrgelloedd academaidd yn dda iawn am addysgu myfyrwyr sut i ddefnyddio adnoddau a chyfnodolion ar-lein. Dywedodd un o'r cyfranogwyr y gellid cyflogi llyfrgellwyr academaidd i ymweld â llyfrgelloedd cyhoeddus i addysgu defnyddwyr y llyfrgell o ran llythrennedd digidol a sut i ddefnyddio adnoddau o'r fath ar-lein. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Amherthnasol |
| *Grŵp Gwau Clydach* | Tynnodd y cyfranogwyr sylw at y ffyrdd canlynol y gellir annog pobl i ddefnyddio eu llyfrgelloedd yn fwy:<br><br>• **Gwella prosesau hysbysebu**;<br><br>• **Ad-drefnu oriau agor y llyfrgell** - i'w gwneud yn haws i bobl sy'n gweithio fenthyg |

| | |
|---|---|
| | llyfrau;<br><br>• **Mwy o weithgareddau i blant**: datblygu'r genhedlaeth nesaf o ddefnyddwyr llyfrgell ac annog rhieni i ddod â'u plant i'r llyfrgell drwy gael cystadlaethau darllen (Sialens Ddarllen yr Haf, er enghraifft).<br><br>**Newid canfyddiad pobl o'r llyfrgell**: Trafododd y grŵp camdybiaethau cyffredin o'r hyn y mae'r llyfrgell yn ei wneud. Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli cymaint y mae llyfrgelloedd wedi newid dros y genhedlaeth ddiwethaf. Dylid gwneud mwy i dynnu sylw at y ffaith bod "*y llyfrgell yn fwy na rhywle i archebu llyfrau bellach*". |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | **Annog mwy o blant i fynd i'r llyfrgell**: Roedd y grŵp yn teimlo ei bod yn bwysig denu plant i lyfrgelloedd pan oeddent yn ifanc fel eu bod yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau wrth iddynt dyfu'n hŷn. Roedd y grŵp yn teimlo y dylai mwy o weithgareddau fod ar gael i blant yn ystod yr haf.<br><br>**Siopau coffi mewn llyfrgelloedd**: Roedd y grŵp yn hoffi'r syniad o gael caffi yn y llyfrgell ond yn rhagweld y byddai trafferthion o ran staffio ac iechyd a diogelwch.<br><br>**Y llyfrgell fel man cyfarfod:** Roedd y grŵp yn hoffi'r syniad o roi'r cyfle i bobl ddefnyddio'r llyfrgell fel man cyfarfod.<br><br>**Hysbysebu gwasanaethau'r llyfrgell yn well**: Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r llyfrgell - felly ni fyddai pobl sy'n ymweld â'r ardal yn gwybod ble i ddod o hyd iddo. |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Gwella prosesau hysbysebu**: Hysbysebion a'r broses hysbysebu oedd yr elfen bwysicaf o ran annog rhagor o bobl i ddefnyddio llyfrgelloedd yn fwy aml. Dangosir llawer o'r hysbysebion yn y llyfrgell - lle y cânt eu gweld gan bobl sydd eisoes yn mynd yno, yn hytrach na phobl nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell. Roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo y dylid gwneud mwy i annog |

| | |
|---|---|
| | y genhedlaeth iau i ddefnyddio llyfrgelloedd, ac felly dylid cynnal mwy o grwpiau a chlybiau ar eu cyfer. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | **Gwella prosesau hysbysebu**: Mae sgrin hysbysebu yn y swyddfa bost leol a gellid hysbysebu cyfleusterau'r llyfrgell yno. Yn gyffredinol, roedd y grŵp yn teimlo bod angen hyrwyddo'r hyn sydd ar gael yn well - nid yw pobl yn sylweddoli beth sydd ar gael yno. Mae'r sylw a roddir i'r llyfrgell yn y wasg yn sôn am bethau sydd wedi digwydd, yn hytrach na rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymlaen llaw.<br><br>**Mwy o weithgareddau i blant**: Cystadlaethau ysgrifennu traethodau a fyddai'n denu plant i'r llyfrgell i wneud gwaith ymchwil.<br><br>**Rhannu adnoddau**: Gwella'r cysylltiadau rhwng y llyfrgell ac adeiladau eraill yn y dref e.e. canolfan grefftau, archifau, canolfan groeso.<br><br>**Rhagor o gyrsiau/grwpiau**: Cwrs hel achau, er enghraifft (cafwyd cwrs tebyg yn y gorffennol, ond dim ond un tymor a barhaodd).<br><br>**Gwefan well**: Gellid gwella'r wefan e.e. nid yw adran y clwb llyfrau yn rhestru'r llyfrau sy'n cael eu trafod. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 10: A oes unrhyw beth yn eich rhwystro rhag defnyddio eich llyfrgell?** | |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Abergele* | Roedd y grŵp yn teimlo bod y llyfrgell leol yn hygyrch iawn o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau parcio sydd ar gael.<br><br>**Lleihau oriau agor**: Roedd y cyngor wedi cynnig dau ddewis o ran oriau agor, ond nid oedd yr un yn ddelfrydol ym marn y grŵp. Cyflwynwyd newidiadau i'r oriau agor (sy'n newid o ddydd i ddydd), ond ni chawsant eu hysbysebu'n briodol, ac roedd llawer o bobl wedi'u drysu. Dywedodd un cyfranogwr ei bod wedi gweld rhesi o bobl y tu allan ar ddydd Sadwrn.<br><br>Roedd un o'r cyfranogwyr yn teimlo bod nifer y defnyddwyr wedi gostwng ar ôl newid yr oriau agor yn dilyn yr arolwg a'r ffaith na chafodd yr oriau agor newydd eu hysbysebu'n briodol. |
| *Babis Bach Blaenau - Llyfrgell Blaenau Ffestiniog* | **Cau'r llyfrgell dros amser cinio**: Nid oedd unrhyw rwystrau penodol ym marn y grŵp hwn, ond roedd un neu ddau yn teimlo bod cau'r llyfrgell dros amser cinio yn gallu bod yn rhwystredig i unigolion eraill, yn enwedig y rhai sy'n gweithio drwy'r dydd. Awgrymwyd y byddai'n syniad da pe bai'r staff yn gweithio shifftiau gwahanol yn y llyfrgell er mwyn datrys y broblem hon.<br><br>**Hygyrchedd**: Roedd rhai yn dweud bod lleoliad y llyfrgell yn gallu bod yn rhwystredig - mae'r llyfrgell wedi'i lleoli y tu allan i brif ardal Blaenau Ffestiniog ac mae'n eithaf anodd cyrraedd yr adeilad mewn car. Teimlwyd y byddai'n anodd i bobl nad ydynt yn byw yn agos i'r llyfrgell |

| | |
|---|---|
| | ddod o hyd iddi.<br><br>**Diffyg adnoddau**: Dim ond pump neu chwe chyfrifiadur sydd ar gael ac weithiau mae’n rhaid i bobl aros i rywun arall orffen defnyddio cyfrifiadur cyn y gallant ddefnyddio un. |
| *Grŵp Darllen Llanfair-ym-Muallt* | Nododd y cyfranogwyr y rhwystrau canlynol:<br><br>• **Oriau agor cyfyngedig**;<br>• **Dim digon o le i astudio**;<br>• **Cyfyngiadau wythnosol ar ddefnyddio'r rhyngrwyd** (ond caniateir i'r staff arfer rhywfaint o ddisgresiwn o dan rai amgylchiadau);<br>• **Rhwystrau diwylliannol**- Os na fydd llyfrgelloedd wedi bod yn rhan o fywydau pobl ifanc wrth iddynt dyfu i fyny, byddant yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau llyfrgelloedd. |
| *Clwb Sgwrsio Caerdydd* | Amherthnasol |
| *Grŵp Gwau Clydach* | **Oriau agor cyfyngedig**: Ym marn y grŵp, yr oriau agor oedd yr unig beth a oedd yn eu rhwystro rhag defnyddio'r llyfrgell. |
| *Grŵp darllen dysgwyr Cymraeg Llyfrgell Rhosneigr* | Amherthnasol |
| *Grŵp 'Read Aloud' Llyfrgell Casnewydd* | **Iechyd defnyddwyr y gwasanaeth**: Cyflwr corfforol y cyfranogwyr sy'n eu hatal yn bennaf rhag defnyddio'r llyfrgell mor aml ag y byddent yn hoffi ei wneud.<br><br>**Hygyrchedd**: Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y pellter cerdded yn ôl ac ymlaen i'r llyfrgell leol, y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a lleoliad y llyfrgell leol yn eu rhwystro rhag |

| | |
|---|---|
| | defnyddio gwasanaeth y llyfrgell. |
| *Grŵp Darllen Llyfrgell Rhuthun* | Amherthnasol |

## Tystiolaeth grwpiau nad ydynt yn defnyddio’r llyfrgell

| **Cwestiwn 1: Pa mor aml ydych yn defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus?** | |
|---|---|
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Dywedodd y cyfranogwyr nad ydynt byth yn defnyddio’r llyfrgelloedd cyhoeddus yn eu hardal (Torfaen/Pont-y-pŵl). |
| *Grŵp Saesneg* | Dywedodd y cyfranogwyr mai yn anaml maent yn defnyddio'r llyfrgell gyhoeddus yn eu hardal (Grangetown). |
| *Taran* | Nid oedd un cyfranogwr wedi ymweld â'r llyfrgell ers blynyddoedd, yn dilyn datblygiad adnoddau cysylltiedig sydd ar gael ar y we.<br><br>Roedd un cyfranogwr yn ymweld â'r llyfrgell bob mis i ddefnyddio'r cyfrifiaduron a’r gwasanaeth benthyca llyfrau. Nododd fod y cyfleusterau yn wych. |
| **Cwestiwn 2: Pam nad ydych yn defnyddio gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus?** | |
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Amlinellodd llawer o'r cyfranogwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiaduron na'r rhyngrwyd yn y cartref, ond maent yn defnyddio eu ffonau clyfar. Roedd llawer yn y grŵp o’r farn bod y llyfrgell yn ddiflas a llawn llyfrau a heb ddim i bobl ifanc ei wneud.<br><br>Nid oedd gan unrhyw un o'r cyfranogwyr ddiddordeb mewn darllen, er bod gan bob un lefel llythrennedd uchel. |

| | |
|---|---|
| *Grŵp Saesneg* | Dywedodd pob un o'r cyfranogwyr nad oeddent yn defnyddio'r llyfrgell yn fwy oherwydd ei fod yn ddiflas ac yn fach iawn. Esboniwyd nad oes llawer o gyfrifiaduron yno, felly nid ydynt yn gallu eu harchebu i'w defnyddio o flaen llaw. Oherwydd yr oriau agor, mae'r grŵp yn cael anhawster mynd yno ar ôl ysgol ac ar y penwythnos. |
| *Taran* | Soniwyd bod y genhedlaeth hŷn bellach yn ymddiried mwy yn y rhyngrwyd ac yn fwy cyfforddus yn defnyddio technoleg hefyd, ac felly yn ymweld â'r llyfrgell yn llai aml.<br><br>Nid oedd gan y grŵp unrhyw adborth negyddol ynglŷn â mynediad i lyfrgelloedd Ynys Môn. |
| **Cwestiwn 3: Sut y gellid gwella'r gwasanaethau llyfrgell yn eich ardal?** | |
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Dywedodd y cyfranogwyr nad oeddent yn gallu ateb y cwestiwn hwn yn onest, gan nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau llyfrgell yn eu hardal.<br><br>Dywedodd un cyfranogwr y byddent yn ymweld â'r llyfrgell os byddai digwyddiadau o ddiddordeb yn cael eu cynnal yno. |
| *Grŵp Saesneg* | Roedd y cyfranogwyr o'r farn y gallai eu gwasanaeth llyfrgell leol fod yn well drwy gynyddu'r defnydd o gyfrifiaduron a thechnoleg ddiweddaraf, fel iPads, ac oriau agor hwyrach. |
| *Taran* | • Agor caffi bach i ymwelwyr bori drwy lyfrau ;<br>• Dileu'r cyfyngiadau ar gadw slotiau ar y cyfrifiaduron.<br><br>**Cynyddu e-adnoddau**: Gallai llyfrgelloedd gynyddu'r amrywiaeth o adnoddau electronig (e.e. e-lyfrau) a gynigir. Trafodwyd yr opsiwn o gael mynediad at gronfa ddata ar y we i lwytho llyfr i lawr a allai fod ar gael am 20-30 diwrnod.<br><br>**Gwasanaethau allgymorth**: Gellid gwella'r gwasanaeth, yn ôl y cyfranogwyr, drwy gyflwyno gwasanaeth allgymorth ehangach drwy gael uned symudol sy'n cymryd y llyfrgell a'i gwasanaethau i'r gymuned - mae yna fan sy'n ymweld â phentrefi gyda llyfrau ar hyn o bryd, ond gellid gwella hynny i gynnwys technoleg fel y gallai defnyddwyr gael mynediad i'r we (gliniaduron a thabledi ac ati). Drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel Taran, sy'n cynnig cyrsiau TG i'w aelodau, gallent sicrhau |

| | |
|---|---|
| | eu bod yn cyrraedd y grwpiau sy’n debygol o ddefnyddio gwasanaeth o'r fath. Mae cymdeithasu yn bwysig i aelodau Taran ac mae rhwydweithio cymdeithasol yn ffordd bwysig o wneud hynny.<br><br>**Yr elfen gymdeithasol**: Mae elfen gymdeithasol llyfrgell yn bwysig i lawer. Dyma'r unig le y maent yn teimlo'n gyfforddus. Mae’n lleoliad cymdeithasol pwysig . |
| **Cwestiwn 4: Yn eich barn chi sut y gallai'r cyngor arbed arian a pharhau i ddarparu gwasanaethau llyfrgell?** | |
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Nid oedd y cyfranogwyr yn gallu ateb y cwestiwn hwn, gan nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell. |
| *Grŵp Saesneg* | Cafodd y grŵp anhawster yn ateb y cwestiwn hwn. Roedd un o'r cyfranogwyr o’r farn ei bod yn annheg gwneud toriadau i wasanaethau eraill y cyngor (glanhau strydoedd, er enghraifft) er mwyn arbed arian i ddarparu gwell gwasanaethau llyfrgell - mae llawer o sbwriel ar y strydoedd yn Grangetown, ac mae angen gwneud mwy yno. |
| *Taran* | **Creu refeniw**: Drwy agor caffi, gallai'r arian gael ei ddefnyddio i wella’r gwasanaethau sydd ar gael a dod â chwsmeriaid newydd nad ydynt wedi ymweld â’r llyfrgell o'r blaen.<br><br>**Cynyddu e-adnoddau**: Pe byddai mwy o lyfrau ar gael yn electronig, byddai’n rhyddhau lle yn y llyfrgell y gellid ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Byddai hynny’n torri costau staff.<br><br>**Defnyddio gwirfoddolwyr**: Trafodwyd defnyddio gwirfoddolwyr i helpu staff y llyfrgell. Byddai’n opsiwn hyfyw gan y byddai'n darparu cyfleoedd i grwpiau dan anfantais gael profiad a chymryd rhan yn eu cymunedau. Byddai pobl sydd wedi ymddeol yn adnodd am fod ganddynt wybodaeth arbenigol am bynciau ac fe allent argymell llyfrau a deunydd cyfeirio. |
| **Cwestiwn 5: Sut gellid annog pobl i ddefnyddio eu llyfrgelloedd yn fwy?** | |

| | |
|---|---|
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Fel y nodwyd eisoes, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn y byddent yn cael eu hannog i ddefnyddio eu llyfrgelloedd yn fwy os byddai digwyddiadau o ddiddordeb iddynt yn cael eu cynnal yno, gan gynnwys:<br><br>• Digwyddiadau cynllunio priodas;<br>• Dosbarthiadau harddwch; a<br>• Dosbarthiadau celf ewinedd. |
| *Grŵp Saesneg* | Roedd y grŵp o'r farn y gallai'r canlynol helpu i annog pobl i ddefnyddio eu llyfrgelloedd yn fwy:<br><br>· Mwy o gyfrifiaduron;<br>· Oriau agor hirach;<br>· Mwy o wybodaeth ar sut i ddefnyddio'r llyfrgell;<br>· Mwy o'r dechnoleg ddiweddaraf (er enghraifft, technoleg sgrin gyffwrdd);<br>· Mwy o weithgareddau hwyl i blant (clwb ar ôl ysgol, er enghraifft). |
| *Taran* | **Gwella canfyddiad**: Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod stigma ynghylch llyfrgelloedd (hen adeilad yn llawn o lyfrau), a bod angen newid hynny i ddenu mwy o bobl i ddefnyddio'r llyfrgell.<br><br>**Rhagor o ddigwyddiadau**: Gallai'r llyfrgelloedd edrych ar gyflwyno mwy o ddigwyddiadau tebyg i'r digwyddiad Diwrnod Iechyd Da a fydd yn cael ei gynnal yn Llangefni'r mis hwn lle mae gan sefydliadau stondin, a phobl yn cael eu gwahodd i ddod i gael gwybod mwy am bwnc penodol yn ymwneud ag iechyd. Fodd bynnag, mae'r cyfranogwyr o'r farn bod yn rhaid i'r llyfrgell ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr eraill y llyfrgell a allai fod am y llyfrgell i gael eu cadw fel ardal dawel. |
| **Cwestiwn 6: A oes unrhyw beth sy'n eich atal rhag defnyddio eich llyfrgell?** | |
| *Prosiect Llais Cyfartal* | Dywedodd pob un o'r cyfranogwyr nad oedd dim yn eu hatal rhag defnyddio eu llyfrgell leol, ond roedd y rhan fwyaf yn teimlo y byddai mynd yno yn ddiflas. |
| *Grŵp Saesneg* | Dywedodd y grŵp mai'r prif beth sy'n eu hatal rhag defnyddio eu llyfrgell yw ei oriau agor. |
| *Taran* | Dywedodd yr aelodau bod diffyg gweithwyr cymorth i fynd â nhw i lyfrgelloedd yn rhywbeth cyffredin sy'n atal pobl rhag defnyddio eu llyfrgell. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cwestiwn 7: Sut ydych chi'n dod i wybod am yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan eich llyfrgell leol?** | |
| Prosiect Llais Cyfartal | Dywedodd y cyfranogwyr y byddai dod i wybod am yr amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan eu llyfrgell leol yn anodd,  oherwydd eu bod byth yn ymweld â'r llyfrgell, ac nid oed ganddynt fynediad at gyfrifiaduron sydd â chysylltiad band eang. Felly, cytunodd y grŵp y dylid hysbysebu mwy i dynnu sylw at y gwasanaethau a gynigir. |
| *Grŵp Saesneg* | Roedd y cyfranogwyr o’r farn y byddai angen iddynt fynd i’r llyfrgell mewn person i gael gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir. Am nad ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd oriau agor y llyfrgell, ni allent ddweud beth oedd ar gael yno ar hyn o bryd. |
| *Taran* | Mae'r hysbysfwrdd yn hynod o ddefnyddiol. Os na fyddai ar gael yn y llyfrgell, lle fyddai pobl yn mynd i weld hysbysiadau? |

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
# Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru

## Ystadegau Allweddol

**532** Cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Arolwg

### Adran 1 – Ymatebwyr yr Arolwg

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o ymatebwyr yr arolwg gan gynnwys ystod oedran, rhyw, a lleoliad yr ymatebwyr.


**01. Beth yw eich oed?**

0 – 25: **8% (41)**

26 – 50: **46.50% (237)**


51 – 65: **29.20% (149)**

65+:**16.30% (83)**



**02. Beth yw eich rhyw?**

Gwryw 32.40% (163) Benyw: 67.60% (341)




**03. Yn ardal pa awdurdod lleol yr ydych chi'n byw?**

Ynys Môn – 9

Blaenau Gwent – 3

Pen-y-bont ar Ogwr – 4

Caerffili – 4

Caerdydd – 73

Sir Gaerfyrddin – 126

Ceredigion – 29

Conwy – 16

Sir Ddinbych – 13

Sir y Fflint – 10

Gwynedd – 9

Merthyr Tudful – 13

Sir Fynwy – 33

Castell-nedd Port Talbot – 10

Casnewydd – 9

Sir Benfro – 8

Powys – 19

Rhondda Cynon Taf – 17

Abertawe – 60

Torfaen – 5

Bro Morgannwg – 34

Wrecsam – 4

**04.** Beth yw cod post eich cartref?

LL: 48


CH: 10

SY: 21

SA: 202

CF: 137

NP: 46



## Adran 2 – Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr arolwg sy'n cynnwys pa mor aml yr oedd y cyfranogwyr yn defnyddio llyfrgelloedd; rhesymau'r ymatebwyr dros ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell leol; a'u barn am sut y gellid annog rhagor o ddefnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus.

**05.** Ar gyfartaledd, pa mor aml rydych chi'n defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus?

Byth: **2.11% (11)**


Unwaith y flwyddyn neu lai: **5% (26)**

Sawl gwaith y flwyddyn: **12.11% (63)**

Bob mis: **23.30% (121)**

Bob wythnos: **32.50% (169)**

Mwy nag unwaith yr wythnos: **25% (130)**



**06. Pam rydych yn defnyddio'r llyfrgell? (Dewiswch y 3 rheswm pennaf).**

I fenthyca llyfrau: **35.30% (456)**

Fel lle i ymchwilio/astudio: **10.40% (134)**

Am resymau cymdeithasol: **4% (52)**

I fynd i weithgareddau plant: **5.90% (76)**

I fynd i ddigwyddiadau a/neu gyfarfodydd: **6.10% (79)**


I ddefnyddio cyfrifiaduron neu'r gwasanaeth Wi-Fi: **11% (142)**

I ddarllen llyfrau neu bapurau newydd: **7.04% (91)**

I fenthyca e-lyfrau: **4.70% (61)**

I fenthyca cryno ddisgiau, DVDs a deunydd clyweledol arall: **11.06% (143)**

Arall: **4.50% (58)**




Ceir dadansoddiad o'r materion a godwyd, yna nifer yr ymatebwyr, o dan y categori 'arall' isod:

Llungopïo: 1 I ddefnyddio'r llyfrgell deithiol: 1 I ddarllen cyfeirlyfrau: 2
I gael gwybodaeth leol a chyhoeddiadau cyhoeddus: 7 Nid wyf yn defnyddio'r llyfrgell: 6
I gael gafael ar wasanaethau cyngor: 2 Ar gyfer e-ddeunydd: 9
I gadw'n gynnes: 1 I leddfu straen: 2

**Beth fyddai'n eich annog i wneud rhagor o ddefnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus?**

Gwell amrywiaeth o lyfrau ac e-lyfrau: **23.60% (142)**

Gwell amrywiaeth o gryno ddisgiau, DVDs a deunydd clyweledol arall: **2.50% (15)**


Oriau agor hirach: **29.50% (177)**

Gwell amrywiaeth o weithgareddau a grwpiau: **11.50% (69)**

Adeiladau brafiach: **8.20% (49)**

Llyfrgell yn nes at eich cartref: **10.10% (61)**

Arall (nodwch): **14.60% (88)**




Ceir dadansoddiad o'r materion a godwyd, yna nifer yr ymatebwyr, o dan y categori 'arall' isod:

Oriau agor hwyrach (yn hytrach na hirach): 6

Cyfnod benthyca hwy: 2

Rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau a gynhelir yn y llyfrgell: 4

Gwell gwasanaethau ar-lein: 2

Rhagor o gyfleusterau ac adnoddau (e.e. toiledau/cyfrifiaduron ac ati): 4

Gwell mynediad at y llyfrgell: 8

Rhagor o staff cymwynasgar: 2

**07.** Beth ydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf am eich llyfrgell?

Llyfrau ac e-lyfrau: **44.10% (250)**

Yr elfen gymdeithasol: **4.80% (27)**

Y gweithgareddau a'r grwpiau: **4.20% (24)**


Staff cymwynasgar: **28.40% (161)**

Yr adeilad: **3.40% (19)**

Cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur a'r gwasanaeth Wi-Fi: **4.40% (25)**

Cryno ddisgiau, DVDs a deunydd clyweledol arall: **1.80% (10)**

Arall (nodwch): **9% (51**)




Ceir dadansoddiad o'r materion a godwyd, yna nifer yr ymatebwyr, o dan y categori 'arall' isod:

Y llyfrgell fel Canolfan Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor: 3

Rwy'n gwerthfawrogi pob agwedd ar y llyfrgell: 9


Catalog E-lyfrgell: 1

Gwasanaethau llyfrgell teithiol: 1

Gwasanaethau rhad ac am ddim y llyfrgell: 2


Lleoliad y llyfrgell 1

**08. Sut y gellid gwella'r gwasanaethau llyfrgell yn eich ardal?**



**9. A ydych o'r farn y dylai cynghorau arbed arian, wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell, drwy:**

*Ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i gyfranogwyr ateb ie, na, neu efallai mewn perthynas â nifer o opsiynau arbed arian. Ceisiwyd barn ar ffyrdd eraill y gallai cynghorau arbed arian wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell.*



b. Os oes gennych unrhyw syniadau eraill ynghylch sut y dylai'r Cyngor arbed arian wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell, rhowch y manylion yma:

